Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adroddiad Cynnydd

## Mai 2022 - Mai 2023

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Cardiff & Vale Health Charity
Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

# Cyflwyniad

Croeso i **Adroddiad Cynnydd** blynyddol Synnwyr Bwyd Cymru. Yma rydym yn amlinellu ein prif gyflawniadau a'n cynnydd yn ystod y cyfnod Mai 2022 - Mai 2023. Mae llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar adeiladu'r sylfeini ar gyfer systemau bwyd iach a chynaliadwy; helpu i feithrin gallu pobl, datblygu a chefnogi rhwydweithiau, adeiladu seilwaith ac eirioli dros bolisïau a deddfwriaethau cefnogol. Nid yw'r rhain yn bethau y gellir eu cyflawni'n gyflym a gall cynnydd ymddangos yn araf ond yn yr adroddiad hwn rydym yn gobeithio dangos, wrth adeiladu'r sylfeini cadarn hyn, bod ein buddsoddiad yn dechrau dwyn ffrwyth, er gwaetha'r anawsterau.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am ein gwaith. Os hoffech gael gwybodaeth fanylach am y rhaglenni a grybwyllwyd neu os hoffech gael gwybod mwy am ein gwaith ehangach, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bostio **foodsensewales@wales.nhs.uk** neu gallwch ymweld â'n gwefan **www.synnwyrbwydcymru.org.uk**

**Diolchiadau:**

Rydym yn hynod ddiolchgar i bob un o'n partneriaid prosiect, ein Grwpiau Cynghori a Llywio ac i bawb sydd wedi gweithio gyda ni ac wedi cefnogi ein hymdrechion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r system fwyd yn fawr ac yn gymhleth ond drwy gydweithio, gallwn wneud gwahaniaeth a sbarduno newid. Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth ag unigolion, sefydliadau a'r Llywodraeth eto eleni a pharhau â'n nod o greu system fwyd sydd o les i bobl ac i'r blaned.

Hoffai Synnwyr Bwyd Cymru hefyd ddiolch i'r cyllidwyr sy'n gwneud ein gwaith yn bosibl gyda'n lletywyr, tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

# Cynnwys


4 Rhagair

5 Ynglŷn â Synnwyr Bwyd Cymru

6 Cynnydd: cipolwg

7 Creu Mudiad Bwyd Da: Ein Rhaglenni

10 Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

15 Partneriaethau Bwyd

17 Bwyd Caerdydd

23 Pys Plîs

27 Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

32 Pontio'r Bwlch

33 Veg Power

34 Cynghrair Systemau Bwyd Ymwybodol UNDP

36 Cynhadledd Bwyd mewn Cymunedau

37 Eirioli dros Fwyd Da

37 Datblygiadau Polisi yng Nghymru

37 Cynghrair Polisi Bwyd Cymru

40 Pwysau iach: Cymru Iach

40 Cychwyn Iach

42 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

43 Gweithio gyda Gweithwyr y Tir Cymru ar brosiect ar gyfer WWF Cymru

44 Aelodaeth o Fyrddau a Grwpiau

45 Y camau nesaf: Beth nesaf yn 2023 / 2024?

# Rhagair



Wrth i'r heriau sy'n wynebu ein system fwyd gynyddu, mae'n hawdd anghofio weithiau bod y problemau sy'n ein hwynebu ymhell o fod yn newydd. Hyd yn oed cyn y don bresennol o chwyddiant ym mhrisiau bwyd - adeg ysgrifennu'r rhagair hwn mae prisiau bwyd yn codi ar gyflymder nas gwelwyd ers 1977 - roedd y ffigurau'n dangos bod 4.7 miliwn o bobl yn wynebu diffyg diogeledd bwyd yn ôl diffiniad Llywodraeth y DU*. Mae cyfraniad y ffordd yr ydym yn bwyta at allyriadau hinsawdd, colledion ym myd natur, a chynnydd di-baid mewn clefydau sy'n gysylltiedig â deiet, wedi bod yn hysbys ers tro, ac mae'n ddealladwy gweld rhwystredigaeth ac weithiau deimlad o ddiymadferthedd yn wyneb heriau mor frawychus. Mae teimladau o'r fath yn ymddangos yn ymateb rhesymol ond mae hynny'n anwybyddu'r cynnydd a wneir o ran polisi cyhoeddus a'r mentrau ymarferol sy'n digwydd yn ein cymunedau. Mae hyn yn dalcen caled iawn, yn enwedig mewn cyfnod ble mae pwysau aruthrol ar bwrs y wlad ac, yn fwy nag erioed, mae'n galw am gamau gweithredu cydgysylltiedig i wneud y defnydd gorau o adnoddau drwy gydweithio, dysgu ar y cyd, a thargedu adnoddau. Yn ogystal â hynny, mae'n gofyn am gydblethu dulliau o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny lle mae camau ymarferol ar lawr gwlad yn sail i strategaeth a pholisi cyhoeddus a lle mae cydlynu gwaith ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn darparu cyd-destun polisi cydgysylltiedig a chefnogol lle mae natur gysylltiedig y problemau'n cael eu deall yn llawn a'u cydnabod.

Rwy'n cael fy nghalonogi'n fawr, felly, gan y ffordd y mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi dangos y ddealltwriaeth hon yn ei waith ac yn yr adroddiad hwn ceir llu o enghreifftiau o fentrau sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl o ddydd i ddydd a chyfraniadau yr un mor bwysig at ddylanwadu at ddatblygiadau polisi ar bob lefel o lywodraeth. Mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg yn y gronfa o £2.5 miliwn a roddwyd gan i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r math o bartneriaethau bwyd sy'n seiliedig ar le y mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi bod yn greiddiol i'w sefydlu drwy arwain y rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru. Yn fy sir enedigol, Sir Gâr, er enghraifft, mae sefydlu Bwyd Sir Gâr ac aelodaeth o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng ngwanwyn 2022 eisoes wedi creu ymdeimlad newydd o bwrpas cyffredin i weithgarwch ac ymyriadau ar draws y gadwyn fwyd yn y sir. Gyda hanner poblogaeth Cymru bellach yn byw mewn ardal lle ceir Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy, dylem felly fod yn obeithiol iawn ar gyfer y dyfodol.

Y ddealltwriaeth hon o'r angen am ddull cydlynol a chydgysylltiedig oedd y ffactor allweddol sy'n gwneud ymyriadau Synnwyr Bwyd Cymru mor effeithiol a thrawiadol o ran eu heffaith. Hynny ac ansawdd tîm o bobl sy'n ymroi i'w gwaith gyda lefel drawiadol o egni, ymrwymiad, creadigrwydd, trylwyredd ac optimistiaeth. Ar lefel bersonol, mae gweithio gyda nhw yn fraint ac yn ysbrydoliaeth ac yn atgoffa rhywun yn gyson bod dyfodol gwell yn bosibl ar gyfer bwyd.

***Simon Wright***

**Cyfarwyddwr Bwyd a'r Economi Wledig,
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Chynghorydd
i Synnwyr Bwyd Cymru**



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales



# Ynglŷn â Synnwyr Bwyd Cymru:

### Cyd-greu system fwyd i Gymru sydd o les i bobl ac i'r blaned

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio gyda chymunedau, sefydliadau, llunwyr polisi a'r Llywodraeth ar draws Cymru i greu system bwyd a ffermio sydd o les i bobl ac i'r blaned. Rydym am ddylanwadu ac effeithio ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod bwyd, ffermio a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a llewyrchus.

I ddarllen mwy am waith Synnwyr Bwyd Cymru, gan gynnyws manylion ynglŷn â'n tîm, ein Bwrdd Ymgynghorol, ein gwerthoedd a'n cenhadaeth, cliciwch yma.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gronfa o fewn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ac yn cael ei chynnal gan dîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Cynnydd: cipolwg

Rhwng Mai 2022 a Mai 2023, mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi:

Helpu i sicrhau bod **50%** o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardal a wasanaethir gan Le Bwyd Cynaliadwy

**Datblygu 9 o Leoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru**

1 Caerdydd
2 Bro Morgannwg
3 Sir Fynwy
4 Blaenau Gwent
5 Rhonnda Cynon Taf
6 Gogledd Powys
7 Sir Gaerfyrddin
8 Abertawe
9 Torfaen




Gweithio gyda phob un o'r **22** Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddatblygu partneriaethau bwyd traws-sector y mae **9** ohonynt yn aelodau o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

Cyflwyno neu gefnogi **9** rhaglen sy'n ymwneud â bwyd



Cefnogi'n uniongyrchol **44** o Arweinwyr Bwyd i ysgogi newid cadarnhaol yn eu system fwyd

Cyflwyno **1** prosiect ymchwil weithredu gan hwyluso **1 dunnell** o courgettes drwy'r gadwyn gyflenwi a chyrraedd bron **1,500** o blant

Croesawu bron i **650** o bobl i ddigwyddiadau Synnwyr Bwyd Cymru

Ymateb i **7** ymgynghoriad

Gwneud **59** o gyflwyniadau mewn cynadleddau neu ddigwyddiadau



Denu **£2.74 million** i Systemau bwyd cynaliadwy yng Nghymru



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Creu Mudiad Bwyd Da:

## Trosolwg

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn parhau i ddatblygu a chynnal **Mudiad Bwyd Da** yng Nghymru drwy ddarparu a chefnogi nifer o raglenni sy'n gysylltiedig â bwyd ledled Cymru. Yn sail i'r holl waith hwn mae'r awydd i feithrin gallu, arweinyddiaeth, hyder ac ymdeimlad o le o fewn cymunedau ledled Cymru. Yn allweddol i hyn mae datblygu Partneriaethau Bwyd Traws-Sector drwy'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy gyda chymorth Llywodraeth Cymru i ddatblygu Partneriaethau Bwyd newydd a allai hefyd ddod yn aelodau o'r Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Yn benodol, mae wedi bod yn wych gweld Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy, Bwyd Sir Gâr a Phartneriaeth Bwyd Gogledd Powys yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu canolfannau bwyd cymunedol ar gyfer caffael cyhoeddus. Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi bod yn arwain partneriaeth ehangach fel rhan o brosiect y Rhaglen Datblygu Gwledig, ***Caffael Bwyd Cynaliadwy ar gyfer Ffyniant Lleol***, ac hwyluso dau Hyb Bwyd - un ym Mhowys dan arweiniad Partneriaeth Bwyd Gogledd Powys a'r llall yn Sir Gaerfyrddin, dan arweiniad Bwyd Sir Gâr - i ehangu eu cyrhaeddiad a symud i faes caffael, tra'n parhau i gyflawni gweledigaeth Hyb Bwyd o sefydliad cysylltiedig, lleol ac amgylcheddol gadarn. Drwy'r bartneriaeth bwyd lleol darperir arbenigedd a hyfforddiant i sicrhau mynediad i Hybiau a thyfwyr ac mae'r prosiect yn datblygu ac yn addasu technoleg bresennol i ddiwallu anghenion cwsmeriaid sy'n defnyddio systemau caffael. Mae Powys a Sir Gaerfyrddin yn aelodau o'r rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sy'n ymchwilio i ddulliau arloesol a chydweithio er mwyn datblygu cadwyni cyflenwi lleol. Mae'r prosiect hwn yn eu cefnogi gyda buddsoddiadau i arallgyfeirio a gweithio tuag at y manteision economaidd ac amgylcheddol a gynigir yn y bil arfaethedig, Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

Yn y cyfamser, darparodd Bwyd Caerdydd, drwy'r Peilot Corbwmpen, ddull o ymchwilio i ddatblygu cadwyni cyflenwi amaeth-ecolegol lleol ar gyfer llysiau mewn ysgolion, gan gysylltu â'n gwaith Pys Plîs a Bwyd a Hwyl, rhaglen a gyflwynwyd gan Bwyd Caerdydd gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2015.
O ran y dyfodol, yn ogystal ag edrych ar ehangu'r gwaith hwn drwy Bwyd Sir Gâr a Phartneriaeth Bwyd Sir Fynwy, bydd gennym gyfle hefyd i ymchwilio i sut y gall bwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur



fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb drwy raglen waith newydd, Pontio'r Bwlch, lle rydym wedi ymuno â Sustain, Tyfu Cymunedau, Elusen Alexandra Rose (ARC) a Nourish Northern Ireland i ddod â sefydliadau lleol a mentrau masnachu ynghyd.

Mae'n galonogol gweld sut mae'r Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru yn defnyddio cyllid i ddatblygu eu strategaethau a'u cynlluniau er mwyn meithrin gallu ymhellach. Mae hyn yn arbennig o wir ledled Gwent lle mae Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy (Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent) yn gweithio ar lefel ranbarthol mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Cyffredin gan adeiladu ar eu cynllun peilot llwyddiannus, Food4Growth. Mae Cyngor Sir Gâr wedi lansio ymgynghoriad ar ei Strategaeth Fwyd gynhwysfawr iawn sy'n cyd-fynd â chais am gyllid i'r Gronfa Ffyniant Cyffredin, tra bod Bwyd Sir Gâr a Phartneriaeth Bwyd Gogledd Powys yn defnyddio adnoddau o amrywiaeth o leoedd. Ac mae pwysigrwydd partneriaethau bwyd yn cael ei gydnabod fwyfwy gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Gellir gweld tystiolaeth bod Partneriaethau Bwyd yn dod yn rhan annatod o strwythurau a chynlluniau lleol yn sgil y ffaith eu bod yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Llesiant; er enghraifft yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Torfaen a Blaenau Gwent; drwy gynlluniau corfforaethol awdurdodau lleol fel Caerdydd Un Blaned, strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd Rhondda Cynon Taf a Chynllun Cymunedau a Chorfforaethol strategol Cyngor Sir Fynwy lle mae'r bartneriaeth hefyd wedi cael ei mabwysiadu fel partner cyflawni strategol gan Fwrdd Rhaglen Sir Fynwy, grŵp cyflawni lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

O fewn cynlluniau Iechyd Cyhoeddus, rydym yn gweld syniadau ac adnoddau'n cael eu rhannu ar draws gwaith systemau Pwysau Iach: Cymru Iach. Er enghraifft ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro drwy gyfraniad Bwyd Caerdydd a'r Fro i Symud Mwy, Bwyta'n Iach, ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan lle mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus wedi



cefnogi tri o'r pum Ardal Awdurdod Lleol gyda'u ceisiadau llwyddiannus i ddod yn Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Yng Ngogledd Cymru, lle mae gwaith Partneriaethau Bwyd newydd yn datblygu, mae tîm Iechyd Cyhoeddus a Deieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn allweddol o ran cefnogi'r gwaith o sefydlu partneriaethau newydd drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru a gefnogir gan Uchelgais Gogledd Cymru hefyd.

Dros y 12 mis nesaf byddwn yn cryfhau ymhellach ein gwaith ar ddatblygu partneriaethau bwyd traws-sector a'r seilwaith sydd ei angen i'w cefnogi, a hynny drwy ein gwaith ar y cynllun Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ogystal â thrwy ddatblygu partneriaethau bwyd ehangach ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn parhau i ffurfio sylfaen ein gwaith ar greu mudiad bwyd da wrth i ni barhau i ychwanegu gwerth a chryfhau'r cyfalaf hwn drwy ein gwaith ar raglenni eraill megis Pys Plîs.

**Wrth ddarllen y tudalennau sy'n dilyn, cewch ragor o wybodaeth am y rhaglenni y mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi'u darparu neu wedi'u cefnogi yn ystod y cyfnod o dan sylw, sef Mai 2022 – Mai 2023.**



### Diffiniad o Amaethecoleg – term sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson drwy gydol yr adroddiad hwn

Ystyr amaethecoleg yw defnyddio egwyddorion arferion ym maes ffermio sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng planhigion, anifeiliaid, pobl a'u hamgylchedd. Mae arferion ffermio amaethecolegol yn anelu at weithio gyda bywyd gwyllt, at liniaru newid hinsawdd ac at roi grym i dyfwyr a chymunedau lleol i greu'r systemau sy'n fwyaf addas i'w hanghenion. Mae ei hamcanion yn gyson â Dyfodol Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru.

Mae Gweithwyr y Tir, Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, Synnwyr Bwyd Cymru ynghyd ag aelodau eraill o Gynghrair Polisi Bwyd Cymru, gan gynnwys WWF Cymru, yn eirioli dros ffermio agroecolegol fel ffordd ymlaen ar gyfer bwyd a ffermio cynaliadwy yng Nghymru.

# Rhaglenni yr ydym yn eu darparu a'u cefnogi

## Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

**Rhaglen bartneriaeth yw Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sy'n cael ei harwain gan Gymdeithas y Pridd, Food Matters a Sustain: y gynghrair ar gyfer gwell bwyd a ffermio. Caiff ei hariannu gan Sefydliad Esmée Fairbairn a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.**

**Lleoedd Bwyd Cynaliadwy** yw un o'r mudiadau cymdeithasol sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Mae ei rwydwaith yn dwyn ynghyd bartneriaethau bwyd arloesol o drefi, dinasoedd, bwrdeistrefi, rhanbarthau a siroedd ledled y DU sy'n ysgogi arloesedd ac arfer gorau ar bob agwedd ar fwyd iach a chynaliadwy.

Synnwyr Bwyd Cymru yw partner cenedlaethol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru ac mae ganddo uchelgais i weld partneriaeth fwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gan greu rhwydwaith a fyddai'n sylfaen i ddatblygu'r weledigaeth, y seilwaith a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud system fwyd Cymru yn addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn cefnogi'r naw aelod presennol yng Nghymru – Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro, Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy, Bwyd RCT, Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent, Partneriaeth Bwyd Gogledd Powys, Bwyd Sir Gâr, Bwyd Abertawe a Phartneriaeth Bwyd Torfaen. Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn annog ardaloedd a chymunedau eraill yng Nghymru i ymuno â'r ymgyrch ac i helpu i arwain y ffordd o ran sefydlu a datblygu seilwaith yn seiliedig ar le, gan gyfrannu at ddatblygu 'mudiad bwyd da' a strategaethau bwyd cymunedol ehangach a fydd o fudd i iechyd, economi, cynaliadwyedd a ffyniant cymdeithasol cymunedau ledled Cymru.





Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

## Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

Mae rhai o brif gyflawniadau'r rhaglen hyd yma yn cynnwys y canlynol:

- Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad a thwf parhaus 9 aelod o'r rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom groesawu dau aelod newydd i Rwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Cymru - Bwyd Abertawe yn Abertawe a Phartneriaeth Bwyd Torfaen - sy'n golygu bod bron i hanner yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru bellach yn aelodau

- Cyn dod yn aelod o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, roedd Bwyd Abertawe wedi derbyn Grant Datblygu gan y rhwydwaith i ariannu unigolyn i gyflawni'r gwaith paratoi sylfaenol er mwyn gwneud cais am aelodaeth.

- Ym mis Mehefin 2022, enillodd Bwyd y Fro Wobr Efydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, gan ddod yn ail leoliad yng Nghymru i ennill statws hwn

- Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau bwyd eraill yng Nghymru sydd wedi cael hwb drwy Gyllid Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a ddyfarnwyd i bob un o'r 22 ardal awdurdod lleol ym mis Rhagfyr 2022

- Ym mis Mawrth 2023, cyflwynodd Synnwyr Bwyd Cymru weithdy wyneb yn wyneb i Gydlynwyr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Cymru a'r rhai a gafodd gyllid partneriaeth yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Canolbwyntiwyd ar rannu gwybodaeth ac arfer gorau, yn ogystal â datblygu perthnasoedd traws-sector ledled y wlad

- Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn cefnogi rhwydwaith cydlynwyr Cymru mewn amrywiol ffyrdd sy'n cynnwys gwahoddiad i ymuno â Chymuned Ymarfer a hwylusir gan Lywodraeth Cymru; drwy hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng Cymheiriaid; trefnu cyfarfodydd rheolaidd i rannu arferion gorau a chynnig cymorth parhaus drwy gydol y flwyddyn.




- Ym mis Mehefin 2022, cynhyrchodd Synnwyr Bwyd Cymru fideo yn esbonio beth yw Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Gallwch ei wylio yma.

- Ym mis Gorffennaf 2022, ymwelodd Synnwyr Bwyd Cymru, ynghyd â chydlynwyr o dri Lleoliad Bwyd Cynaliadwy, â San Steffan ar gyfer Diwrnod Gweithredu Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Fe wnaeth Katie Palmer gyflwyniad yn y digwyddiad a oedd yn gyfle i dynnu sylw Aelodau Seneddol lleol at waith anhygoel partneriaethau bwyd, i ddathlu'r cyhoeddiad y byddai Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn Partneriaethau Bwyd traws-sector ac i alw am: "un bil bwyd ar gyfer pob gwlad, un cynllun a phartneriaeth bwyd ym mhob ardal leol." Darllenwch fwy yma.

- Mae Bwyd Caerdydd, un o arloeswyr y rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, bellach yn gweithio tuag at ennill Gwobr Aur. Bwyd Caerdydd yw'r unig sefydliad yng Nghymru i ennill y Wobr Arian

> *"Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi profi ei fod yn bartner hanfodol i alluogi'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i addasu a chael cydnabyddiaeth o'i model unigryw ar gyfer newid y system fwyd. Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi bod yn allweddol i lwyddiant rhyfeddol y newid mewn polisïau bwyd lleol a chenedlaethol ledled y wlad."*
>
> **Leon Ballin, Rheolwr Rhaglen, Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

## Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

*Cliciwch ar bob un i ddarganfod mwy*

**Partneriaeth Bwyd**
Bwyd Caerdydd

**Sefydliad Lletyol**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Ardal Awdurdod Lleol**
Cyngor Caerdydd

**Mwy o Wybodaeth**
Mae Bwyd Caerdydd yn credu bod y bwyd yr ydym yn ei fwyta yn cael effaith fawr ar fywyd yng Nghaerdydd - nid yn unig ar iechyd pobl, ond ar gymunedau a busnesau, ffermwyr unigol, a'r amgylchedd hefyd. Darllenwch fwy yma.

**Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**
Arian

---

**Partneriaeth Bwyd**
Bwyd y Fro

**Sefydliad Lletyol**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Ardal Awdurdod Lleol**
Cyngor Bro Morgannwg

**Mwy o Wybodaeth**
Mae Bwyd y Fro yn bartneriaeth o unigolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau ymroddedig sy'n cydweithio i greu system fwyd ffyniannus, iach a chynaliadwy yn y Fro. Darllenwch fwy yma.

**Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**
Efydd

---

**Partneriaeth Bwyd**
Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy

**Sefydliad Lletyol**
Cyngor Sir Fynwy

**Ardal Awdurdod Lleol**
Cyngor Sir Fynwy

**Mwy o Wybodaeth**
Menter gydweithredol sirol o bobl a sefydliadau o'r sector cymunedol, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat yw Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy sydd wedi ymrwymo i gymryd camau cadarnhaol tuag at system fwyd gynaliadwy yn y sir a thu hwnt. Nod Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy yw:

- cysylltu pobl, prosiectau a phartneriaid i ddatblygu system fwyd leol a chynaliadwy
- cymryd camau ar y cyd i lunio'r system fwyd leol
- bod yn llais cyfunol ar gyfer bwyd sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar bolisïau ac yn rhannu arfer gorau

Darllenwch fwy yma.

**Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**
Aelod

# Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

*Cliciwch ar bob un i ddarganfod mwy*

**Partneriaeth Bwyd**

Bwyd RCT

**Sefydliad Lletyol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Ardal Awdurdod Lleol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Mwy o Wybodaeth**

Mae Bwyd RCT yn bartneriaeth fwyd newydd dan ofal

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ei gweledigaeth yw sicrhau bod pawb sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Rhondda Cynon Taf (RCT) yn gallu cael gafael ar fwyd iach, blasus a fforddiadwy sydd o les i'r amgylchedd ac i'r economi leol.

Darllenwch fwy yma.

**Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**

Aelod

**Partneriaeth Bwyd**

Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent

**Sefydliad Lletyol**

Tai Cymunedol Tai Calon

**Ardal Awdurdod Lleol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

**Mwy o Wybodaeth**

Sefydlwyd Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent ym mis Mai 2021 gyda'r nod o roi strategaeth uchelgeisiol ar waith sy'n mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd o fewn system fwyd Blaenau Gwent. Mae'r bartneriaeth yn chwarae rhan ganolog wrth gydlynu camau gweithredu lleol ar faterion megis mynediad at fwyd, yr amgylchedd a datblygu 'Mudiad Bwyd Da'.

Darllenwch fwy yma.

**Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**

Aelod

**Partneriaeth Bwyd**

Partneriaeth Bwyd Gogledd Powys

**Sefydliad Lletyol**

Cultivate

**Ardal Awdurdod Lleol**

Cyngor Sir Powys

**Mwy o Wybodaeth**

Mae Partneriaeth Bwyd Gogledd Powys yn darparu llwyfan i bawb gyfrannu at greu mudiad bwyd cynaliadwy, neu gynyddu eu cyfranogiad ynddo, ar draws Gogledd Powys. Aelodau ei bartneriaeth bresennol yw: Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot ac Amaethu. Bydd y bartneriaeth yn ymchwilio i ffyrdd o ychwanegu at ei haelodaeth a'i hymestyn dros y 12 mis nesaf.

Darllenwch fwy yma.

**Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**

Aelod



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

*Cliciwch ar bob un i ddarganfod mwy*

| | | |
|---|---|---|
| **Partneriaeth Bwyd**<br>Bwyd Sir Gâr<br><br>**Sefydliad Lletyol**<br>Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol<br><br>**Ardal Awdurdod Lleol**<br>Cyngor Sir Gâr | **Mwy o Wybodaeth**<br>Gan rymuso cymunedau drwy ddull cydgynhyrchiol, gweledigaeth Bwyd Sir Gâr yw galluogi adfywiad cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.<br>Cefnogir y bartneriaeth gan Gyngor Sir Gâr, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr, Adran Maeth a Dieteteg Hywel Dda, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr a Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr.<br>Darllenwch fwy yma. | **Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**<br>Aelod newydd yn 2023 |
| **Partneriaeth Bwyd**<br>Partneriaeth Bwyd Torfaen<br><br>**Sefydliad Lletyol**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br><br>**Ardal Awdurdod Lleol**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | **Mwy o Wybodaeth**<br>Ers ei lansio ym mis Ionawr 2022, mae Torfaen wedi datblygu Partneriaeth Bwyd traws-sector, gan ddod â grŵp o unigolion o'r un anian at ei gilydd sy'n ceisio sicrhau cydraddoldeb bwyd ar draws y fwrdeistref ac yn ehangach, drwy ardal Gwent. Gweledigaeth y grŵp yw datblygu system fwyd gynaliadwy a theg sy'n darparu bwyd fforddiadwy ac iach i bawb. | **Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**<br>Aelod newydd yn 2023 |
| **Partneriaeth Bwyd**<br>Bwyd Abertawe<br><br>**Sefydliad Lletyol**<br>Canolfan yr Amgylchedd, Abertawe<br><br>**Ardal Awdurdod Lleol**<br>Cyngor Abertawe | **Mwy o Wybodaeth**<br>Mae Bwyd Abertawe'n rhwydwaith o randdeiliaid systemau bwyd yn Ninas a Sir Abertawe, gan gynnwys pawb sydd â diddordeb mewn bwyd cynaliadwy ar gyfer Abertawe. Maent yn cefnogi mynediad at fwyd iach, fforddiadwy a lleol i bawb, er lles pobl a'r blaned. | **Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**<br>Aelod newydd yn 20233 |



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Partneriaethau Bwyd

## Wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru a'u cefnogi gan Synnwyr Bwyd Cymru

Ym mis Mehefin 2022, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ariannu partneriaethau bwyd traws-sector yng Nghymru fel rhan o gyfres o becynnau ymyrraeth i helpu i liniaru tlodi.

Gwnaed y cyhoeddiad gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn ystod yr Uwchgynhadledd Costau Byw. Mae'r ymrwymiad cyllido hwn bellach yn cael ei wireddu gyda £2.5 miliwn wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol ledled Cymru i gefnogi neu gryfhau'r gwaith o ddatblygu partneriaethau bwyd traws-sector – meithrin gwytnwch rhwydweithiau bwyd lleol drwy gydlynu gweithgarwch ar lawr gwlad sy'n ymwneud â bwyd a helpu i fynd at wraidd yr hyn sy'n achosi tlodi bwyd.

Mae **Synnwyr Bwyd Cymru** wedi bod yn allweddol o ran sefydlu a meithrin partneriaethau bwyd fel rhan o'i waith yn arwain y rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru. Pleser o'r mwyaf gennym yw cefnogi Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â'r rhaglen (Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn ogystal â rhanddeiliaid ymroddedig eraill megis sefydliadau gwirfoddol, elusennau, busnesau bwyd, manwerthwyr, cyfanwerthwyr, tyfwyr a ffermwyr) wrth i'r cyllid gael ei fuddsoddi mewn systemau a phrosiectau lleol. Mae pwysigrwydd dulliau gweithredu'n seiliedig ar le a'r ffordd y gall partneriaethau bwyd traws-sector lleol gefnogi cymunedau i ymateb i'r argyfwng costau byw tra'n gweithio i ddatblygu economïau bwyd lleol mwy gwydn, eisoes wedi cael ei gydnabod yn y Senedd fel enghraifft mewn tystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r drafft o Fil Bwyd (Cymru) gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd.

Rydym hefyd wedi bod yn tynnu sylw at effaith a grym partneriaethau bwyd yn y cyfryngau.
Ym mis Mehefin 2022, bu Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio gyda'r tîm cynhyrchu sy'n gweithio ar gyfres Country Focus ar BBC Radio Wales i gynhyrchu rhaglen 30 munud ar Leoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru. Darlledwyd y rhaglen am y tro cyntaf ar 19 Mehefin ac roedd yn cynnwys trosolwg o'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ogystal ag ymweliadau â thair partneriaeth fwyd - Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent, Bwyd Sir Gâr a Bwyd Caerdydd. Yn ystod yr un mis, ysbrydolwyd Vishvapani, awdur ac athro Bwdhaeth o Gaerdydd, i siarad am feddylfryd systemau ar Thought for the Day ar BBC Radio 4 ar ôl gwneud rhywfaint o waith gyda Synnwyr Bwyd Cymru.

*"Fel rhywun sydd ar fin dechrau ar y gwaith o greu partneriaeth fwyd leol traws-sector, er bod y gwaith sydd o fy mlaen yn gyffrous, mae'n frawychus hefyd. Roedd y digwyddiad rhwydweithio yn Wrecsam, wedi'i drefnu gan dîm anhygoel Synnwyr Bwyd Cymru, yn gyfle i mi gyfarfod a rhyngweithio â chymheiriaid o bob cwr o'r wlad sydd eisoes wedi cymryd y camau cychwynnol hynny. Roeddent yn barod iawn i rannu gwybodaeth am yr anawsterau a brofwyd ganddynt hyd yma, ynghyd â straeon am eu llwyddiannau a chymorth o ran y ffordd ymlaen. Roedd yn gyfle i greu cysylltiadau agosach â sefydliadau cyfagos, a gallaf ragweld y byddwn yn gweithio'n llawer agosach â nhw wrth ddatblygu'r gwaith. Dyma brofiad gwerthfawr a oedd yn rhoi gwell dealltwriaeth, gwybodaeth a doethineb a fydd yn ein helpu i gynllunio tuag at y nod a gwneud popeth yn fwy esmwyth ar hyd y daith. Gadewais y digwyddiad gan deimlo'n rhan o rywbeth croesawgar ac ysgogol. Roeddwn yn llawn brwdfrydedd ac yn teimlo'n fwy hyderus i allu mynd i'r afael â'r tasgau rwy'n eu hwynebu. Diolch o galon i'r trefnwyr ac i'r cyfranogwyr am greu profiad gwerth chweil."* **Gary Thomas, Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy, GAVO, Casnewydd**

ASTUDIAETH ACHOS:

## Arweinwyr Bwyd Da yn ymgynnull yn Wrecsam

Yn ddiweddar trefnodd Synnwyr Bwyd Cymru ddigwyddiad hyfforddi, rhwydweithio a rhannu gwybodaeth dros ddau ddiwrnod yn Wrecsam a hynny ar gyfer unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar arwain a rheoli bwyd yng Nghymru.

Llwyddodd y 'Cynulliad Bwyd Da' a gynhaliwyd am yr eildro yng Nghymru i ddod â chydlynwyr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, arweinwyr Partneriaethau Bwyd a charfan Fy Nghymuned Fwyd, ynghyd i gyfnewid syniadau a phrofiadau ac i ddysgu mwy am bolisïau bwyd yng Nghymru.

Canolbwyntiodd y diwrnod cyntaf ar y cyd-destun gwleidyddol yng Nghymru a chyflwynodd Katie Palmer o Synnwyr Bwyd Cymru ac Andrew Tuddenham o Gymdeithas y Pridd sesiwn ar strwythurau gwleidyddol, y cyd-destun polisi bwyd ac eiriolaeth yng Nghymru.

Cafwyd cyflwyniad hefyd i waith Synnwyr Bwyd Cymru, gwybodaeth am y Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a chyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n gweithio ar ddatblygu'r partneriaethau bwyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru.



Roedd y digwyddiad wedi'i anelu at arweinwyr bwyd profiadol yn ogystal â'r rhai sy'n newydd i waith y partneriaethau bwyd yng Nghymru, gan roi trosolwg o waith y gymuned fwyd bresennol.

Darllewnch fwy yma.



# Bwyd Caerdydd

**Un o sylfaenwyr rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sy'n rhan o bortffolio rhaglenni Synnwyr Bwyd Cymru**



Mae Bwyd Caerdydd yn credu bod y bwyd yr ydym yn ei fwyta yn cael effaith fawr ar fywyd yng Nghaerdydd - nid yn unig ar iechyd pobl, ond ar gymunedau a busnesau, ffermwyr a thyfwyr unigol, a'r amgylchedd hefyd.


Mae bwyd da yn creu cymunedau cryf, iach a gwydn.  Mae'n gweithredu fel hyb sy'n cysylltu pobl a phrosiectau sy'n gweithio i hyrwyddo bwyd iach, cynaliadwy a moesegol; mae'n llais dros newid ehangach yn ogystal â bod yn gatalydd ar gyfer newid y system fwyd leol yng Nghaerdydd.

Erbyn hyn, mae Bwyd Caerdydd yn cynnwys 245 o unigolion o 115 o sefydliadau ac mae ganddo fwrdd strategaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o aelodau, gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Prifysgol Caerdydd, Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd, Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE) â llu o aelodau eraill. Drwy'r rhwydwaith hwn o bartneriaid ymroddedig, mae Caerdydd yn ysgogi newid ar lefel y ddinas ac yn gweithio i fynd i'r afael â rhai o broblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf y dydd.

Yn 2022-23, cynyddodd Caerdydd ei huchelgeisiau, gan anelu at sicrhau mai'r ddinas oedd y lle cyntaf yng Nghymru i ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, a hynny erbyn 2025. Mae Bwyd Caerdydd wedi sicrhau bod yr uchelgais hon yn cael ei gefnogi gan bolisïau a sefydliadau allweddol, gan gynnwys yn y drafft o Gynllun Lles Caerdydd 23-28 ac yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 23-26. Mae Bwyd Caerdydd hefyd wedi cyflwyno ei waith yn genedlaethol i Lywodraethau Cymru a'r DU, gan gynnwys cymryd rhan yn Niwrnod Gweithredu Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn San Steffan ym mis Gorffennaf 2022; cyflwyno yng nghynhadledd Plaid Gydweithredol Cymru a'r Gynhadledd Bwyd mewn Cymunedau yn ogystal â chymryd rhan mewn gweminarau fel rhan o gyflwyno cynllun partneriaethau bwyd Llywodraeth Cymru.

Mae ymgyrch 'Addunedu' Bwyd Caerdydd yn parhau i ysbrydoli unigolion, busnesau a sefydliadau i weithredu. Mae dros 240 o addewidion wedi'u gwneud ac ers 1 Mai 2022 cafwyd dros 20,000 o ymweliadau â thudalennau'r wefan.

## Bwyd Caerdydd




Yn ystod Hydref/Gaeaf 2022 cynhaliwyd ymgyrch fusnes wedi'i thargedu, gyda chymorth cyllid gan Gronfa Uchelgais Caerdydd Am Byth. Fe wnaethom ddatblygu pecyn cymorth newydd gan ddangos sut y gall busnesau o bob lliw a llun yng nghanol y ddinas gymryd rhan. Cafodd busnesau eu hannog i ymrwymo i gamau gweithredu sy'n cyfrannu at economi bwyd lleol ffyniannus, a ddiffinnir fel un lle mae gan bawb fynediad at fwyd sy'n iach ac yn amgylcheddol gynaliadwy. Rydym hefyd wedi creu dau fideo a dwy astudiaeth achos yn amlygu busnesau bwyd a rhai nad ydynt yn ymwneud â bwyd sy'n cymryd camau yn y maes hwn.

Cydlynodd Bwyd Caerdydd 3edd Gŵyl Hydref Flynyddol Bwyd Da Caerdydd a gynhaliwyd rhwng 10 Medi ac 17 Hydref. Lansiwyd yr ŵyl yng Ngŵyl Fwyd Amgueddfa Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan ar benwythnos 10-11 Medi. Mewn partneriaeth â'r ŵyl, trefnodd Bwyd Caerdydd Ardal Bwyd Da Caerdydd a oedd yn cynnig rhaglen o weithdai ac arddangosiadau, i ddangos gwaith aelodau Bwyd Caerdydd a oedd yn cynnwys pobyddion, cogyddion cymunedol, tyfwyr bwyd, dietegwyr, gwirfoddolwyr a mwy. Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, roedd pob sesiwn yn canolbwyntio ar gael mynediad at fwyd iach a maethlon a daeth Bwyd Caerdydd o hyd i gyllid i ddarparu trafnidiaeth ar gyfer grwpiau ymylol hefyd.

Ail-lansiodd Bwyd Caerdydd ein cyfarfodydd rhwydweithio personol llawn hefyd ym mis Mawrth 2023. Darllenwch am y digwyddiad yma.



# Bwyd Caerdydd

**Ffermio ar gyrion Trefi**

Mae'r rhaglen Ffermio ar Gyrion Trefi, a arweinir gan Sustain, yn brosiect cydweithredol gyda phartneriaid ledled y DU i ddeall rhwystrau, nodi cyfleoedd a chamau gweithredu lleol, a datblygu polisi cenedlaethol i alluogi ffermio amaeth-ecolegol ar gyrion dinasoedd fel rhan o adferiad economaidd gwyrdd.

Yn 2022, ymunodd Caerdydd â'r rhaglen i ymgymryd â chynlluniau gweithredu i amlygu cyfleoedd, rhwystrau, a'r adnoddau y gallai fod eu hangen ar gyfer y camau nesaf.

Ym mis Hydref 2022, bu Bwyd Caerdydd yn gweithio gyda Chynghrair Gweithwyr y Tir Cymru i gynnal trafodaeth am y cyfleoedd ar gyfer garddwriaeth fwytadwy a ffermio cymysg yng Nghymru, y rhwystrau i ehangu a'r newidiadau polisi sydd eu hangen. Fe wnaethom drefnu cyflwyniadau gan ffermwyr arloesol am y gwaith cadarnhaol y maent yn ei wneud i gynhyrchu bwyd ar gyfer cymunedau lleol drwy ddulliau ecolegol gynaliadwy; yr heriau y maent yn eu hwynebu, a'r cymorth sydd ei angen er mwyn i'r sector ffynnu. Roedd tua 25 o bobl yn bresennol gan gynnwys Jenny Rathbone AS, swyddogion Llywodraeth Cymru, ffermwyr a chynrychiolwyr y diwydiant.

Ym mis Tachwedd, dilynodd Bwyd Caerdydd hyn gyda gweithdy rhanbarthol a chyhoeddwyd adroddiad manwl yn crynhoi'r rhwystrau, y cyfleoedd a'r camau gweithredu posibl a nodwyd gan y 22 rhanddeiliad yn ystod y gweithdy.

Roedd Bwyd Caerdydd hefyd yn rhan o'r peilot corbwmpenni a arweiniodd at gyhoeddi adroddiad gan Synnwyr Bwyd Cymru. Mae'r astudiaeth ymchwil weithredu hon bellach yn esblygu a bydd yr ail gam yn cael ei gynnal yn ystod haf 2023. Mae Bwyd Caerdydd yn falch iawn o gymryd rhan unwaith eto ac yn falch o allu parhau â'r gwaith a ddechreuwyd y llynedd.






Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

## Bwyd Caerdydd

**Rhwydwaith Manwerthu Bwyd Cymunedol**

Rhwydwaith ffyniannus o gydweithfeydd bwyd, pantris, oergelloedd cymunedol, clybiau brecwast a darpariaethau bwyd amgen eraill yw Rhwydwaith Manwerthu Bwyd Cymunedol Bwyd Caerdydd. Mae Bwyd Caerdydd wedi cynnal 4 cyfarfod rhwydwaith ac wedi trefnu taith maes i Lundain ar gyfer 10 aelod o'r rhwydwaith mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Sustain. O ganlyniad i'r rhain, mae o leiaf un aelod o'r rhwydwaith yn sefydlu cydweithfa fwyd newydd ac mae aelodau eraill yn cefnogi ei gilydd (er enghraifft mae un pantri bellach yn gweithio gyda'r tîm deieteg).

Sefydlodd Bwyd Caerdydd brosiect o'r enw O'r Plot i'r Pantri gyda'r nod o adeiladu gwydnwch prosiectau drwy greu cadwyni cyflenwi lleol. Darparwyd y prosiect gan Edible Cardiff, gyda chefnogaeth Bwyd Caerdydd. Ers mis Ebrill 2022:

- Mae Tyfu Caerdydd wedi archebu fan drydan a fydd ar gael i bob aelod o rwydwaith Edible Cardiff a Rhwydwaith Manwerthu Bwyd Cymunedol i'w harchebu i gynorthwyo gyda chludo bwyd ar draws y ddinas. Dylai hyn arwain at ddosbarthu 500kg ychwanegol o lysiau'n lleol.
- Tyfwyd gwerth £520 o eginblanhigion gan feithrinfa blanhigion y cyngor lleol i'w dosbarthu i 4 tyfwr lleol, gydag ymrwymiad y byddai tua 30% o'r cynnyrch a fyddai'n deillio ohonynt yn cael ei roi i brosiectau manwerthu cymunedol.
- Dyfarnwyd gwerth £2250 o grantiau bach i grwpiau tyfu cymunedol a rhandiroedd ar gyfer eitemau cyfalaf a fyddai'n cynyddu cynhyrchiant bwyd (e.e. twneli polythen, systemau dyfrio awtomataidd, systemau compostio).



*Rydym wrth ein bodd â'r prosiect O'r Plot i'r Pantri, rydym yn gwerthfawrogi'r llysiau ychwanegol ac maen nhw bob amser yn hedfan oddi ar y bwrdd! Cawsom hambwrdd yn llawn pak choi ac fe ddiflannon nhw'n gyflymach nag y gallwch chi ddweud pak choi!  Mae gennym ni gwsmeriaid rheolaidd sy'n gwirioni ar sbigoglys ac roedden nhw wrth eu bodd o gael sbigoglys porffor."*

**Derbynnydd cynnyrch O'r Plot i'r Pantri**



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Bwyd Caerdydd



**Effaith ar draws y Ddinas**

Ym mis Mai 2022 comisiynodd Bwyd Caerdydd Ganolfan Ymchwil Caerdydd i ail-gynnal arolwg yn cwmpasu'r ddinas gyfan i gymharu profiadau dinasyddion gyda bwyd rhwng 2021 a 2022. Ymatebodd dros 1,200 o bobl i'r arolwg ac mae rhai o'r canlyniadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Mae Ymwybyddiaeth o Bwyd Caerdydd wedi cynyddu naw pwynt canran ers yr arolwg blaenorol (o 17.3% i 26.3%).
- Teimlai dros draean (36.6%) o'r ymatebwyr fod mudiad bwyd da yng Nghaerdydd (yn debyg i'r llynedd sef 36.4%).
- Bu cynnydd mawr yn nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn 'Siopa mewn marchnad ffermwyr' (+31.0 pwynt canran), tra bod y gyfran sy'n mynychu 'digwyddiad bwyd stryd' wedi codi 26.0 pwynt canran; gan adlewyrchu'r ffaith i gyfyngiadau'r cyfnodau clo gael eu codi o bosibl. Mae'r rhai sy'n 'tyfu bwyd gartref' wedi cynyddu 12.4 pwynt canran.
- Yr unig weithgaredd ble y gwelwyd gostyngiad oedd 'Gwirfoddoli anffurfiol yn ymwneud â bwyd' (-2.5 pwynt canran).
- Dim ond 7.9% o'r ymatebwyr a oedd yn gyfarwydd ag ymgyrch 'Addunedu' #BwydDaCaerdydd, ond roedd tua 60% o'r rhai a oedd yn gwybod am yr ymgyrch wedi gweithredu o ganlyniad iddi.

Gallwch ddarllen mwy am Bwyd Caerdydd a'i waith drwy ymweld â www.foodcardiff.com

*"...Nid cyd-ddigwyddiad nac ychwaith ganlyniad un neu ddau o berchnogion busnes â bwriadau da yw'r hyn sy'n digwydd gyda bwyd yng Nghaerdydd. Mae'n ganlyniad cyllid hirdymor a gwaith caled gan dîm bach sy'n gweithio yn Synnwyr Bwyd Cymru a'r cynllun Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, Bwyd Caerdydd, lle mae partneriaethau bwyd arloesol wedi helpu i gyfuno diddordeb lleol mewn bwyd â gwaith lobïo cenedlaethol."*

**Nina Pullman, Wicked Leeks**



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

## Bwyd Caerdydd




**ASTUDIAETH ACHOS**

### Annog busnesau yng nghanol y ddinas i weithredu er mwyn helpu Caerdydd i ddod yn un o ddinasoedd mwyaf cynaliadwy'r DU

Mae busnesau yng nghanol Caerdydd yn cael eu hannog i weithredu er mwyn helpu Caerdydd i ddod yn un o'r lleoedd mwyaf cynaliadwy yn y DU erbyn 2024.

Y llynedd, dyfarnwyd statws Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i Gaerdydd – y lle cyntaf yng Nghymru (ac un o ddim ond chwe lle yn y DU) i ennill y teitl mawreddog; mae'r cynllun yn seiliedig ar gyflawniadau efydd, arian ac aur yn ymwneud â chwe mater bwyd cynaliadwy allweddol.

Nawr, mae busnesau annibynnol, sefydliadau'r trydydd sector, a sefydliadau mawr yng nghanol y ddinas yn cael eu hannog i ymuno, a helpu Caerdydd i gyflawni statws Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy erbyn y flwyddyn 2024.

Mae'r ymgyrch yn cael ei chydlynu gan Bwyd Caerdydd, partneriaeth bwyd y ddinas sy'n tyfu'n gyflym ac sydd wedi esblygu i fod yn rhwydwaith dinas gyfan deinamig a chynhwysol.

Mae pecyn cymorth newydd sy'n dangos sut y gall busnesau o bob maint ac o bob sector yng nghanol y ddinas gymryd rhan wedi'i greu gyda chymorth cyllid o Gronfa Uchelgais y Ddinas Caerdydd am Byth.


Darllewnch fwy yma.



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Pys Plîs

**Partneriaeth y DU a arweinir gan The Food Foundation ac a ariennir drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**




Menter sy'n cwmpasu'r DU gyfan yw **Pys Plîs** a chanddi genhadaeth glir: ei gwneud yn haws i bawb yn y DU fwyta mwy o lysiau. Arweinir gwaith Pys Plîs yng Nghymru gan Synnwyr Bwyd Cymru ac mae'n dod â ffermwyr, cyflenwyr, manwerthwyr, bwytai cadwyn, arlwywyr, proseswyr ac adrannau'r llywodraeth ynghyd gyda'r nod cyffredin o'i gwneud yn haws i bawb fwyta llysiau. Y partneriaid prosiect eraill yn y DU sy'n ymwneud â'r fenter hon yw The Food Foundation, Nourish Scotland, Food NI a Nourish NI.

Yn rhaglen arloesol sy'n canolbwyntio'n benodol ar lysiau, nod Pys Plîs y cael diwydiant a'r llywodraeth i ymrwymo i wella argaeledd, derbynioldeb (gan gynnwys cyfleustra), fforddiadwyedd ac ansawdd y llysiau sydd ar gael mewn siopau, ysgolion, bwytai a thu hwnt, ac yn ei dro ysgogi'r cyhoedd yn y DU, ac yn enwedig plant a'r rhai ar incwm isel, i fwyta mwy o lysiau.

Mae dros 100 o sefydliadau hefyd wedi addo chwarae eu rhan i helpu pawb yn y DU i fwyta dogn ychwanegol o lysiau y dydd. Gelwir yr addunedau hyn yn Addunedau Llysiau ac yng Nghymru, mae gennym 8 addunedwr cenedlaethol ar hyn o bryd.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru hefyd wedi bod yn rheoli grŵp o 12 Hyrwyddwr Llysiau gweithgar sy'n gweithio fel cyfryngau newid unigol yn eu cymunedau lleol ac yn helpu i ysgogi'r newidiadau enfawr sydd eu hangen yn ein hymgais i gael pawb i fwyta mwy o lysiau.

Lansiwyd Pys Plîs yn 2017 ac ers hynny mae 771 miliwn o ddognau ychwanegol o lysiau wedi'u gwerthu. Er bod hwn yn gyflawniad anhygoel, roedd y cynnydd yn 2022 gryn dipyn yn llai nag yn y blynyddoedd blaenorol. Nid oedd hyn yn annisgwyl o ystyried y cynnydd mewn prisiau bwyd, heriau gyda chadwyni cyflenwi ac argaeledd cynnyrch, cynnydd mewn costau busnes a'r argyfwng costau byw. Roedd yr adroddiad hefyd yn dangos bod bwlch cynyddol mewn maeth rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Ymhlith y rhai sy'n ennill llai na £10,000 gostyngodd cyfran y llysiau yn y fasged siopa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond arhosodd yr un fath ymysg y rhai sy'n ennill dros £70,000 er gwaethaf y cynnydd mewn prisiau. Mae data eraill yn yr adroddiad yn dangos bod pobl yn prynu llai o fwyd yn gyffredinol wrth i'r argyfwng costau byw ddyfnhau.

## Pys Plîs

Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau, rydym yn parhau i amlygu a dathlu ymdrechion gan fusnesau, sefydliadau a grwpiau ymroddedig i fynd i'r afael â'r tueddiadau hyn a gwelir enghreifftiau o 'arloesi gyda llysiau' gan yr addunedwyr a'r Hyrwyddwyr Llysiau fel ei gilydd.

**Dyma rai o uchafbwyntiau diweddar y prosiect:**




- Ym mis Mai 2022, enillodd y rhaglen Bwyd a Hwyl – menter Llywodraeth Cymru a gydlynir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wobr Cymdeithas Dda yng Ngwobrau Pys Plîs 2022

- Yn ystod 2022, cefnogodd Pys Plîs Brosiect Ymchwil Llysiau Hygyrch TGrains yng Nghymru, a oedd yn ymchwilio i effaith aelodaeth Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGA) ar aelwydydd sy'n wynebu diffyg diogeledd bwyd, gyda'r amcanion a ganlyn:
    - Nodi rhwystrau i ymaelodi ag AGA a chymryd rhan ynddo.
    - Mesur effaith aelodaeth AGA ar aelwydydd sy'n wynebu diffyg diogeledd bwyd
    - Archwilio ffyrdd y gall AGA gyflwyno modelau undod i sicrhau bod bagiau llysiau ar gael i bawb.

- Gweithiodd y prosiect Llysiau Hygyrch gyda 4 fferm AGA a fynegodd ddiddordeb mewn ymchwilio i fodelau cymorth i sicrhau bod llysiau ar gael i gartrefi sy'n wynebu diffyg diogeledd bwyd. Y ffermydd hyn oedd:
    - Ash and Elm Horticulture, Llanidloes
    - AGA Glasbren, Bancyfelin, Caerfyrddin
    - AGA Henbant, Clynnog Fawr, Caernarfon
    - Slade Farm Organics, Saint-y-brid

- Anogwyd partneriaid fferm i weithio mewn partneriaeth ag elusennau bwyd lleol i helpu i gefnogi eu gwaith gyda chartrefi sy'n wynebu diffyg diogeledd bwyd. Derbyniodd 38 o gartrefi fag llysiau wythnosol am gyfnod o 2-4 mis. Fe wnaeth y tîm ymchwil gyfweld â chyfranogwyr a chasglu dyddiaduron bwyd 3 diwrnod ar ddechrau'r prosiect a chyn diwedd tymor y cynhaeaf. Ar ôl cyfnod y cynhaeaf, cynhaliodd y tîm ymchwil weithdy ar gyfer pob un o'r pedwar partner fferm a 2 bartner elusennol, i rannu'r hyn a ddysgwyd yn y prosiect. Gallwch wylio fideo gwerthuso yma sy'n rhannu llwyddiant modelau undod AGA a manteision gwneud llysiau iach a chynaliadwy yn hygyrch i bawb yn y gymuned.


- Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Synnwyr Bwyd Cymru ganfyddiadau prosiect ymchwil gweithredol a ariannwyd yn rhannol gan Pys Plîs, ac a oedd yn cynnwys llawer o'n haddunedwyr pys plîs, yn edrych ar ddarparu Llysiau o Gymru i Ysgolion Cynradd Cymru. Yn dilyn llwyddiant y prosiect hwn – neu'r peilot corbwmpenni fel y cyfeirir ato'n aml – cafodd Synnwyr Bwyd Cymru arian gan dîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru i ehangu'r peilot ymhellach yn 2023 i gynnwys amrywiaeth o lysiau, amrywiaeth o ardaloedd, mwy ysgolion, gweithgareddau ac ymweliadau gan gynhyrchwyr

- Anogwyd yr holl Hyrwyddwyr Llysiau i wneud cais am grantiau bach a fyddai o fudd i'w cymunedau lleol. Bu 11 o'n Heiriolwyr Llysiau yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau a threfnwyd 10 digwyddiad a fynychwyd gan 234 o bobl.

## Pys Plîs

- Mae astudiaeth werthuso 3 blynedd a gynhaliwyd gan y Ganolfan Polisi Bwyd Mhrifysgol City, Llundain, mewn cydweithrediad â'r Food Foundation a Pys Plîs, wedi bod yn dogfennu effaith gweithgareddau ymgysylltu Pys Plîs. Fel rhan o werthusiad y DU gyfan, mae dau Hyrwyddwr Llysiau yng Nghymru wedi bod yn dogfennu'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ac yn gweithio gyda Pys Plîs ar yr astudiaeth.
- Ym mis Mawrth 2023, mynychodd Hyrwyddwyr Llysiau a gweithredwyr prosiectau o bob rhan o Gymru grŵp ffocws fel rhan o'r astudiaeth werthuso, a oedd yn cynnwys dosbarth coginio Kimchi fel gweithgaredd adeiladu tîm.






*"Gobeithio bod hwn (rhaglen Hyrwyddwyr Llysiau) yn rhywbeth a fydd yn parhau ac nad yw'n dod i ben... mae angen i'r math hwn o beth barhau...mae angen ei gynyddu!"* **Hyrwyddwr Llysiau, Cymru**

*"Rwy'n teimlo'n eithaf angerddol am y peth (am fy rôl fel Hyrwyddwr Llysiau). Mae wedi newid agweddau o fy mywyd personol mewn ffordd gadarnhaol iawn."* **Hyrwyddwr Llysiau, Cymru**

## ASTUDIAETH ACHOS Peilot Courgettes: Llysiau o Gymru i Ysgolion yng Nghymru

Mae prydau bwyd mewn ysgolion yn gyfle i roi marchnad sicr i gynhyrchwyr llysiau agroecolegol, a byddai modd defnyddio'r prydau hyn hefyd fel ffordd bwysig o fuddsoddi mewn cadwyni cyflenwi llysiau yng Nghymru. Dyna ganfyddiadau adroddiad gwerthuso sy'n cael ei gyhoeddi heddiw, a hwnnw'n edrych ar brosiect peilot a gomisiynwyd gan Synnwyr Bwyd Cymru.



Mae'r adroddiad yn dweud y byddai parhau i fuddsoddi yn cael effaith ddilynol ar ddatblygu rhwydwaith rhanbarthol a chryf o gynhyrchwyr bwyd, a fyddai'n gallu cyflenwi llysiau i ganol eu cymunedau.  Er mwyn cyflawni hyn, mae'r adroddiad yn argymell bod angen cynllun buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi cynaliadwy, a'r cynllun hwnnw'n targedu'n benodol y bwlch rhwng y llysiau rhataf sydd ar gael a llysiau sy'n cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn casglu, pe bai Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnwys 2 ddogn o lysiau ym mhob pryd mewn ysgolion cynradd y flwyddyn nesaf, byddai'n rhaid cyflenwi 5331 tunnell o lysiau i ysgolion. Pe bai'r rhain i gyd yn llysiau sy'n cael eu cynhyrchu drwy ddulliau agroecolegol yng Nghymru, byddai'n rhoi marchnad sicr gwerth tua £15m i gynhyrchwyr agroecolegol Cymru. Byddai hyn yn golygu dyblu maint yr ardal sy'n cael ei defnyddio i dyfu llysiau mewn caeau yng Nghymru, gan gefnogi bron i 100 o fusnesau sy'n cyflogi bron i 1000 o bobl. Byddai hyn hefyd yn cael effaith ddilynol ar ddatblygu rhwydwaith rhanbarthol a chryf o gynhyrchwyr bwyd, a fyddai'n gallu cyflenwi llysiau i ganol eu cymunedau.

Dyma rai o brif ganfyddiadau'r adroddiad gwerthuso ynghylch Llysiau Agroecolegol o Gymru i Ysgolion Cynradd Cymru, sydd wedi'i lunio gan Dr Amber Wheeler a'i gomisiynu gan Synnwyr Bwyd Cymru.  Mae'n gwerthuso prosiect peilot diweddar lle cafodd courgettes o Blas Gwent, tyfwr agroecolegol o Gymru, eu cyflenwi i ysgolion yng Nghaerdydd drwy Castell Howell, y cyfanwerthwr Cymreig, a hynny gyda chymorth y Bartneriaeth Bwyd Cynaliadwy, Bwyd Caerdydd.

Darllenwch y datganiad i'r wasg yma a darllenwch yr adroddiad yma.


Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

Cynllun Peilot Courgettes

Ionawr 2023


Llysiau Agroecolegol Cymreig
ar gyfer Ysgolion Cynradd Cymru

Gwerthusiad Ymchwil Gweithredol
gan Dr Amber Wheeler ar ran Synnwyr Bwyd Cymru

*Newid y system fwyd ...
un courgette ar y tro*

HealthCharity Elusenlechyd

bwyd Caerdydd


Crynodeb

Ystadegau Allweddol

1 ymrwymiad i sicrhau cael llysiau Cymru ar blatiau plant

1 Partneriaeth Bwyd
1 Cynhyrchydd
1 Cyfanwerthwr

29 o Ysgolion Cynradd Caerdydd

Rhaglen Bwyd a Hwyl am 3 wythnos yn yr haf

Bron i 1 dunnell o courgettes drwy'r gadwyn gyflenwi


Bron 1500 o blant

Darparwyd gweithgareddau yn ymwneud â courgettes i 29 o ysgolion
6 ysgol yn cynnwys plant mewn coginio gyda courgettes
7 ysgol yn gwneud 'Celf Courgette'

90c y kg neu £900 y dunnell
– y buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi gynaliadwy sydd ei angen i sicrhau bod hyn yn digwydd *(y gwahaniaeth rhwng pris courgettes a gynhyrchwyd yn agroecolegol a rhai a fewnforiwyd (56% yn fwy))*

3 Peilot Courgettes

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales


Y Camau nesaf:

Cynllun Peilot 2: o 1 i 10 tunnell

Cynllun peilot ar raddfa fwy gydag un neu ddwy Bartneriaeth Fwyd ychwanegol, mwy o gynhyrchwyr, mwy o amrywiaeth o gynnyrch, mwy o ysgolion a phlant a mwy o ymgysylltu â nhw, gan gynnwys ymweliadau â ffermydd.

1 ymrwymiad i sicrhau cael llysiau Cymru ar blatiau plant
2 neu 3 o Bartneriaethau Bwyd Cynaliadwy
Mwy o gynhyrchwyr ac o bosibl mewn ardaloedd gwahanol
1 neu fwy o gyfanwerthwyr
10 tunnell o fathau gwahanol ar lysiau
8 wythnos o dymor ysgol
100 o ysgolion cynradd. 10,000 o blant
Mwy o gydweithio gyda staff arlwyo
Cynnwys plant wrth ddylunio rysetiau
Ymweliadau â ffermydd
Gweithgareddau llysiau sy'n gysylltiedig â Veg Power ac addysg bwyd

6 Peilot Courgettes

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

**Wedi'i harwain gan Gymdeithas y Pridd a'i hariannu drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**

Rhaglen o weithgareddau cymunedol sy'n canolbwyntio ar y gymuned  ac yn cysylltu pobl o bob oed a chefndir drwy dyfu, coginio a rhannu bwyd da yw Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes. Mae'n rhaglen 4-blynedd a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a ddechreuodd ym mis Mehefin 2019. Caiff ei harwain gan elusen Bwyd am Oes Cymdeithas y Pridd ac yng Nghymru mae'n cael ei darparu drwy Synnwyr Bwyd Cymru.

Mae Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes yn cefnogi trefnwyr cymunedol drwy dair prif ffrwd gyflawni; Fy Nghymuned Bwyd, Ymgyrchoedd a Rhwydweithio, cynnal gweithgareddau bwyd da, darparu adnoddau, hyfforddiant ar-lein a grantiau bach. Ers ei sefydlu, mae Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes yng Nghymru wedi ymgysylltu'n frwd â chymunedau amrywiol a difreintiedig, ac roedd 38.7% o'r grwpiau sy'n ymwneud â'r rhaglen yng Nghymru yn y 10, 20 a 30% o ardaloedd lle ceir y lefelau uchaf o amddifadedd.

## Fy Nghymuned Fwyd

Rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer hyrwyddwyr bwyd da er mwyn dysgu, cysylltu a gweithredu yw Fy Nghymuned Fwyd. Mae'n rhaglen o weithgareddau a ddarperir gan arbenigwyr a phartneriaid prosiectau, gan ddod â phobl ynghyd sy'n hyrwyddo bwyd da - bwyd sydd o les i'r hinsawdd, i natur ac i iechyd.



**Chris Nottingham, cydlynydd Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent a Louise Denham, cydlynydd Bwyd y Fro yn derbyn eu tystysgrifau am gyflawni rhaglen Fy Nghymuned Fwyd**

## Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Fy Nghymuned Fwyd gyntaf (Medi 2021 - Mehefin 2022), nod fersiwn 2 o'r cynllun peilot (Medi 2022 - Mawrth 2023) oedd cynyddu recriwtio a'r gwaith cyflawni yn ogystal â chefnogi gwerthusiad helaeth gan Brifysgol Gorllewin Lloegr, ar ffurf adroddiadau, astudiaethau achos a ffilmiau hyrwyddo i gyfleu llwyddiant ac effaith y rhaglen..

### Fy Nghymuned Fwyd Fersiwn 2 mewn rhifau:

Recriwtiwyd **76** o aelodau newydd, **13** ohonynt o Gymru

Roedd **50%** ohonynt o'r 10-30% o gymunedau sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd

**4** Darparwyd 4 "dosbarth meistr" ar arweinyddiaeth gan Koreo, un o bartneriaid y rhaglen

**4** Cyflwynwyd 4 o Setiau Dysgu Gweithredol

**5** Cyflwynwyd 5 sesiwn Dysgu ac Ysbrydoli

**2** Cynhaliwyd 2 sesiwn bartneriaeth gan y Cyngor Moeseg Bwyd a Chymunedau Eden Project

Dyfarnwyd **28** o Grantiau Dysgu Gweithredol, 4 yng Nghymru

*"Rwyf wedi cael fy synnu braidd gan y graddau y mae sgiliau arwain Fy Nghymuned Fwyd wedi effeithio arnaf. Mae gen i lawer mwy o brofiad a gwell rhwydweithiau ac rwy'n cael mwy o barch nawr, felly gallaf fod yn arweinydd gweithgar ar sawl lefel gan gynnwys ar lefel gwleidyddiaeth yng Nghymru. Rwy'n mawr obeithio y gallaf gyfrannu at ymgyrch Caerdydd i gael gwobr aur i'n prifddinas yn y cynllun gwobrau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy."* **Aelod o garfan gyntaf Fy Nghymuned Fywyd yng Nghymru.**




**Ymgyrchoedd Allweddol**
**Coginio a Rhannu / Plannu a Rhannu**

Dechreuodd Mis Coginio a Rhannu 2022 ar Ddiwrnod Bwyd y Byd ar 16 Hydref a pharhaodd tan 18 Tachwedd.

Fe wnaeth ddathlu gwaith gwirfoddolwyr, ysgolion, a chymunedau, gan annog meithrin perthynas a chysylltiadau drwy goginio a rhannu bwyd da. Ledled y DU, yn ystod ymgyrch 2022 cynhaliwyd 310 o ddigwyddiadau; ychwanegwyd 600 o danysgrifwyr newydd at y rhestr bostio; lawrlwythwyd 29,000 o adnoddau a chymerodd 4,974 o unigolion ran.

Lansiwyd Mis Plannu a Rhannu 2023 ar Ddiwrnod y Ddaear ar 22 Ebrill gan barhau tan Ddiwrnod Gwenyn y Byd ar 20 Mai. Roedd thema wahanol i bob un o'r 4 wythnos, gydag adnoddau dwyieithog cyfatebol yn annog cymunedau i gymryd rhan mewn gweithgareddau tyfu a natur gyda'u cymunedau. Roedd y themâu hyn yn cynnwys Tyfu i Bawb, Tyfu ar gyfer Llawenydd, Tyfu i Fwyta a Thyfu dros Natur.



Oherwydd llwyddiant yr ymgyrchoedd blaenorol, mae Cymdeithas y Pridd wedi mabwysiadu Plannu a Rhannu fel ymgyrch graidd gan sicrhau bod gwaddol i'r rhaglen Dewch at eich Gilydd.

# Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

## Rhwydweithiau

Fel ffordd i'r rhaglen Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes ddatblygu'r rhwydwaith ymhellach a meithrin gallu, cafodd gofodau ar-lein presennol y rhwydweithiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen eu symud i blatfform digidol craidd. Mae Circle yn blatfform sy'n dod â thrafodaethau diddorol, aelodau, ffrydiau byw, sgyrsiau a digwyddiadau ynghyd mewn un lle o dan y brand Dewch at Eich Gilydd. Treialwyd y platfform ym mis Medi 2022 a rhoddwyd lle penodol i aelodau Fy Nghymuned Fwyd o garfan 1 a charfan 2, i barhau â'u cysylltiadau ar ôl iddynt gwblhau'r rhaglen. Ers hynny mae lleoedd ar y platfform wedi'u rhoi i'r 14 o Bartneriaid a Gomisiynwyd yn Lleol a'r rhwydweithiau Dewch at Eich Gilydd ehangach.

Dywedodd Rachael Walsh o Groundworks Cymru fod ymgysylltu â phartneriaid eraill ar y platfform wedi helpu i godi ei hymwybyddiaeth a chysylltu ag eraill a oedd yn gwneud math tebyg o brosiect mewn rhannau eraill o'r wlad, sydd wedi dod yn ffynhonnell syniadau, ysbrydoliaeth a chefnogaeth.

> *"Mae wedi dod yn rhwydwaith bach ynddo'i hun."*
>
> **Rachel Walsh, Groundworks Wales**

Mae Partneriaid Comisiwn Lleol wedi bod yn cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein i gefnogi ymgyrchoedd Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes a datblygiad y rhwydwaith. Er enghraifft, yn ystod Hydref 2022 cyd-hwylusodd Groundworks Cymru sesiwn ar droi cnydau tymhorol yn jamiau a siytni a oedd yn canolbwyntio ar leihau gwastraff bwyd a darparu cynhwysion ar gyfer y cwpwrdd storio y gellir eu defnyddio yn ystod misoedd y gaeaf.

## Uchafbwyntiau eraill Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

Gyda chymorth Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes, daeth Synnwyr Bwyd Cymru â bron i 100 o bartneriaid ac aelodau'r rhwydwaith ynghyd ar gyfer y digwyddiad deuddydd Bwyd mewn Cymunedau a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2022. Roedd y digwyddiad yn gyfle i drafod dulliau'n seiliedig ar le; gwytnwch cymunedol ac arweinyddiaeth ar fwyd a daeth ag arweinwyr bwyd o bob rhan o Gymru ynghyd i gysylltu â'i gilydd, i rannu profiadau, ac i ysbrydoli newid. Roedd y gynhadledd yn cynnwys siaradwyr a chyfraniadau o bob rhan o'r rhwydwaith Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes, gan gynnwys staff craidd, carfan Fy Nghymuned Fwyd a phartneriaid rhaglen.

Ar ôl cwblhau rhaglen Arweinyddiaeth Fy Nghymuned Fwyd, cytunodd cyfranogwr o garfan 1 i siarad ar banel yng Nghynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru am fanteision Fy Nghymuned Fwyd ac arweinyddiaeth gymunedol.

Gyda Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes ar gam olaf y rhaglen, ym mis Mawrth 2023 cynhaliwyd digwyddiadau ar draws gwelydd y DU, gan ddod â phartneriaid, rhwydweithiau a charfannau Fy Nghymuned Fwyd ynghyd i ddathlu cyflawniadau'r rhaglen, trafod syniadau ynghylch etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol a meithrin perthnasoedd. Cynhaliwyd digwyddiad Cymru yn Nhŷ Pawb yn Wrecsam, ble y daeth 27 o arweinwyr bwyd ynghyd ar gyfer dau ddiwrnod o weithdai a rhwydweithio. Roedd hyn yn cynnwys gweithdy Polisi Cymru a gynhaliwyd gan Synnwyr Bwyd Cymru a Phennaeth Polisi Cymru Cymdeithas y Pridd. Efallai eich bod eisoes wedi darllen am hyn yn yr astudiaeth achos *Arweinwyr Bwyd Da* yn gynharach. Cliciwch yma i'w ddarllen eto.



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

## ASTUDIAETH ACHOS Fy Nghymuned Fwyd: Fy Stori

Louise Denham yw Cydlynydd Bwyd y Fro, partneriaeth fwyd leol ym Mro Morgannwg, sy'n rhan o'r rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Fel partneriaeth o unigolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau ymrwymedig, mae Bwyd y Fro yn gweithio i adeiladu system fwyd iach a chynaliadwy sy'n ffynnu yn Ardal yr Awdurdod Lleol. Mae gwaith Louise Denham yn cydlynu'r gweithgaredd hwn yn rhan annatod o lwyddiant y bartneriaeth, a'r llynedd, rhoddwyd Statws Efydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i Fro Morgannwg, sy'n anrhydedd clodfawr i gydnabod gwaith arloesol i hyrwyddo bwyd iach a chynaliadwy.

Yn gydlynydd, hwylusydd a chynullydd profiadol, mae Louise eisoes yn arweinydd bwyd gweithredol, ond roedd y ffaith iddi ddechrau ei rôl gyda Bwyd y Fro yn ystod y pandemig yn golygu y bu cysylltu ag eraill yn fwy heriol nag yr oedd wedi ei ddisgwyl. Pan ddaeth y cyfle i gymryd rhan yn Fy Nghymuned Fwyd, sef rhaglen arweinyddiaeth bwyd wedi'i harwain gan Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes, neidiodd Louise at y cyfle i ddysgu; i feithrin rhwydweithiau newydd ac i ddatblygu ei sgiliau ymhellach.

Parhewch i ddarllen y stori yma.






Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Pontio'r Bwlch

Ym mis Mehefin 2022, dyfarnodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol grant tair blynedd gychwynnol o tuag £1.5 miliwn i Sustain a phartneriaid o bob rhan o'r DU, gan gynnwys Synnwyr Bwyd Cymru, i ymchwilio i sut y gall bwyd sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur fod yn fforddiadwy ac ar gael i bawb, o dan y rhaglen Pontio'r Bwlch newydd.

Mae Sustain, Tyfu Cymunedau ac Elusen Alexandra Rose (ARC), yn gweithio gyda Synnwyr Bwyd Cymru a Nourish Northern Ireland i ddod â sefydliadau lleol a mentrau masnachu ynghyd. Gyda'i gilydd, byddwn yn cynnal cynlluniau peilot ym mhob un o wledydd y DU i oresgyn rhwystrau'n ymwneud â phrisio a rhwystrau eraill, gan sicrhau bod bwydydd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur ar gael i bobl ar incwm is.

Bydd y rhaglen Pontio'r Bwlch yn dysgu oddi wrth fentrau lleol ar raddfa fach a chanddynt atebion addawol ac yn adeiladu arnynt, a'i nod yw adeiladu tystiolaeth a momentwm y tu ôl i'r syniadau hyn, fel y gall cyllidwyr a llunwyr polisïau gefnogi modelau credadwy, gyda'r bwriad o brif ffrydio modelau hyfyw.

Mae'r rhaglen i'w chroesawu, yn arbennig felly mewn cyfnod ble rydym wedi gweld dros 300 o ardaloedd yn datgan argyfwng hinsawdd a natur, ynghyd â chynnydd dramatig yn y defnydd o fanciau bwyd. Mae'r argyfwng costau byw yn rhoi pwysau ychwanegol ar aelwydydd incwm isel, sydd, yn ôl The Food Foundation, yn aml yn gorfod gwario 40% o'u hincwm ar fwyd os ydynt am ddilyn argymhellion bwyta'n iach. Mae hyn o'i gymharu â dim ond 7% o incwm gwario ar gyfer y pumed cyfoethocaf o'r boblogaeth. Yn ogystal â gwaethygu anghydraddoldebau iechyd, mae hyn hefyd yn golygu bod llawer o fwydydd sy'n cael eu cynhyrchu mewn ffyrdd y mae angen i ni eu hannog, fel tyfu ffrwythau a llysiau mewn ffordd gynaliadwy, allan o gyrraedd y rhai ar incwm isel.

Bydd y rhaglen yn gweithredu prosiectau peilot mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws y DU, a bydd yn defnyddio'r canlyniadau i ddangos beth sy'n gweithio i lunwyr polisïau. Yn bwysicach, bydd y cynlluniau peilot yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda'r bobl a fydd yn elwa ohonynt ac rydym ar hyn o bryd yn bwrw ymlaen â syniadau mewn dwy gymuned yng Nghymru, y naill mewn ardal drefol yn ne Cymru a'r llall yng nghefn gwlad gogledd Cymru.



# Veg Power




Prif nod Nerth Llysiau yw cynyddu'r defnydd o lysiau ledled y DU – menter a sefydlwyd yn 2018 yw hon sy'n deillio o waith Pys Plîs. Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio'n agos gyda Veg Power i gefnogi ei weithgarwch yng Nghymru ac mae Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen Synnwyr Bwyd, hefyd yn aelod o'r bwrdd.

Ar hyn o bryd, nid yw 80% o blant yn y DU yn bwyta digon o lysiau. Mae traean yn bwyta llai nag un dogn y dydd a dim ond traean o oedolion sy'n cyrraedd y targed o 5 y dydd. Mae Veg Power yn gweithio mewn partneriaeth agos â Pys Plîs a'i nod yw defnyddio hysbysebu a marchnata i gynyddu'r galw gan ddefnyddwyr a gwerth canfyddedig llysiau.

Bwytewch y Llysiau i'w Llethu yw un o ymgyrchoedd Veg Power. Mae ei dull o ysbrydoli plant i fwyta mwy o lysiau yn cyfuno pŵer hysbysebu â rhaglen i ysgolion. Daw â chynghrair enfawr ynghyd gan gynnwys hysbysebion teledu, enwogion, archfarchnadoedd, cogyddion, ysgolion, cymunedau a theuluoedd.

**Mewn partneriaeth ag ITV, yn 2023:**

- Cynhaliwyd yr ymgyrch rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2023
- Cafodd ei chefnogi gan ymgyrch hysbysebu gwerth £3.5m dan arweiniad ITV, Channel 4 a Sky
- Aeth y rhaglen ysgolion allan i 2,358 o ysgolion cynradd ac arbennig gan gynnwys 638 yng Nghymru diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cymru
- Cymerodd 628,000 o blant ran mewn gweithgareddau mewn ysgolion, digwyddiadau blasu a siartiau gwobrau a phecyn sticeri
- Dywedodd 57% o rieni plant a gymerodd ran yn y rhaglen ysgolion yn 2022 fod eu plant wedi bwyta mwy o lysiau. Bydd canlyniadau 2023 yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023.

**Mae ymgyrchoedd Veg Power eraill ledled y DU yn cynnwys:**

- **Growing to love...tomatoes** - prosiect tyfu tomatos mewn ysgolion cynradd sy'n annog plant i garu tomatos
- **Kung Fu Panda: Lunch of Legends** - partneriaeth gyda DreamWorks Animation i wella ansawdd bocsys bwyd plant
- **Simply Veg** - i gefnogi rhieni a gofalwyr i ymdopi â'r argyfwng costau byw gyda phrydau llawn llysiau y bydd eu teuluoedd yn gwirioni arnynt.



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Cynghrair Systemau Bwyd Ymwybodol Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig

Mae **Cynghrair Systemau Bwyd Ymwybodol** (CoFSA) yn fudiad bwyd, amaethyddiaeth ac ymarferwyr ymwybodol, a gynlluniwyd gan Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig (UNDP) sydd â nod cyffredin: cefnogi pobl ar draws systemau bwyd ac amaethyddiaeth i feithrin eu gallu mewnol er mwyn ysgogi newid yn y systematig a'i hadfywio.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn falch o fod an aelod o'r mudiad hwn ac yn hynod bles bod Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen Synnwyr Bwyd Cymru wedi'i hethol yn aelod o Gyngor Mewnol CoFSA, grŵp sy'n cael ei gadeirio gan Andrew Bovarnick, Pennaeth Systemau Bwyd a Nwyddau Amaethyddol Byd-eang UNDP. Y grŵp hwn sydd yn diffinio ac yn llywio'r broses o weithredu strategaeth CoFSA yn ogystal â bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar brif agweddau'r Gynghrair. Mae Katie yn un o ddim ond 12 o ymarferwyr systemau bwyd ar draws y byd sydd ar y Cyngor Mewnol a bydd ei phresenoldeb yn helpu i greu trawsnewidiad positif yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Wedi hefyd cyfrannu at ddatblygiad Maniffesto CoFSA, mae Katie bellach yn gweithio gyda Rheolwr Newid mewn Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i ddatblygu cymuned sy'n cefnogi'r rhwydwaith cynyddol o bartneriaethau bwyd yng Nghymru. Rhan o'r cynnig fydd hyfforddi i greu galluoedd mewnol sy'n gysylltiedig â ffyrdd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o weithio a thrwy ddefnyddio'r dulliau hyn gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â meysydd o wrthdaro a cheisio dod o hyd i ffyrdd o'u datrys.

Ym mis Ebrill 2023, mynychodd Katie Encil Strategol CoFSA - cyfle i ymchwilio i ffyrdd ymarferol o gydweithio a thrawsnewid systemau bwyd drwy gryfhau ein cysylltiad â ni ein hunain, ag eraill, ac â natur. Yn ystod yr encil, bu'r aelodau'n myfyrio ar daith CoFSA hyd yma ac yn cynllunio ei gweithrediad ar draws y byd.

Gwyliwch y fideo i ddarganfod mwy neu cliciwch yma i ymweld â'r wefan.





Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

## ASTUDIAETH ACHOS Cynghrair Systemau Bwyd Ymwybodol a COP27

Yn ystod COP27, fel rhan o ddigwyddiad byd-eang a drefnwyd gan Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig (UNDP), ymunodd Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen Synnwyr Bwyd Cymru, â phanel o arbenigwyr i drafod 'Bwyd ar gyfer Hinsawdd: Ysgogi Trawsnewidiad o'r Tu Mewn Allan.'

Mae CoFSA yn mynd ati i drawsnewid systemau bwyd drwy weithio gyda phob grŵp perthnasol o randdeiliaid ar draws systemau bwyd, gan gynnwys defnyddwyr, cwmnïau, llywodraethau, asiantaethau datblygu, academia, cyrff anllywodraethol byd-eang a lleol, cymunedau lleol, ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd. Er mwyn gallu trawsnewid systemau bwyd mae CoFSA o'r farn bod yn rhaid i ni weithio nid yn unig ar weithredu polisïau, ymchwil a phrosiectau, ond hefyd ar sbardunau mewnol ymddygiad unigol, cyfunol a sefydliadol. Mae'n rhaid i ni allu ailgysylltu â ni ein hunain, â'n gilydd ac â natur i sbarduno'r rhinweddau a'r sgiliau trawsnewidiol sydd eu hangen i gefnogi'r broses o drawsnewid i systemau bwyd atgynhyrchiol.

Yn ystod ei chyflwyniad yn COP27, rhannodd Katie ei myfyrdodau â chydweithwyr o bob cwr o'r byd ynglŷn â bod yn rhan o'r gymuned ymarfer byd-eang hwn, a sut y llwyddodd ei amharodrwydd cychwynnol i'w helpu i groesawu dull gweithredu newydd. Gallwch ddarllen mwy yma.




*"Mae'r rhai ohonom sy'n gweithio i wella'r system fwyd yn gweld yn gyson y dinistr y mae tlodi, newid yn yr hinsawdd a cholli byd natur yn ei achosi. Mae'n anodd dianc ac aros yn gadarnhaol a pharhau i bwyso am atebion. Dyma un rheswm pam mae CoFSA mor bwysig – i helpu ymarferwyr i ymdopi â'r heriau hyn a pharhau i feddwl sut i ddatrys problemau mewn ffordd bositif."*

**Katie Palmer, Synnwyr Bwyd Cymru.**



# Cynhadledd Bwyd Mewn Cymunedau

Ym mis Gorffennaf 2022, cynhaliodd Synnwyr Bwyd Cymru Gynhadledd Bwyd mewn Cymunedau yn Yr Egin, Caerfyrddin.  Trafodwyd dulliau'n seiliedig ar le; gwytnwch cymunedol ac arweinyddiaeth bwyd a daeth ag arweinwyr bwyd o bob rhan o Gymru ynghyd i gysylltu â'i gilydd, i rannu profiadau, ac i ysbrydoli newid. Roedd y gynhadledd yn cynnwys areithiau, trafodaethau panel a sesiynau holi ac ateb i alluogi cynadleddwyr i rannu arfer gorau ac ysbrydoli cydweithio yn y dyfodol, gan amlygu cyfleoedd newydd i arweinwyr bwyd a phartneriaethau ledled Cymru.

Mae recordiadau o'r sesiynau ar gael ar dudalen y gynhadledd ar ein gwefan.  A gallwch hefyd wylio fideo o'r gynhadledd sy'n rhoi trosolwg i chi o'r diwrnod.






*"....cyfle anhygoel i ni ddod at ein gilydd a siarad wyneb yn wyneb ag arbenigwyr a sefydliadau o bob cwr o Gymru i weld beth allwn ni ei wneud i gyflawni'r agenda hon sy'n ganolog i ni, nid yn unig fel cyngor sir ond i'r bartneriaeth sector cyhoeddus ar draws Sir Gâr."*

**Y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd, Cyngor Sir Gâr**



# Gwaith Polisi ac Eiriolaeth

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn defnyddio dull systemau o ymdrin â bwyd a ffermio, gan greu cysylltiadau gwaith cryf gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil. Rydym yn eirioli dros newidiadau cadarnhaol a fydd yn helpu i wella iechyd a chanlyniadau cymdeithasol pobl yn ogystal â bod o fudd i'r amgylchedd.

Mae digon o weithgarwch yn y maes deddfwriaethol mewn perthynas â bwyd ar hyn o bryd. Gyda goblygiadau i fwyd yn sgil y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael (sydd ar hyn o bryd y tu hwnt i gyfnod 4 yn y broses ddeddfwriaethol), mae tîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar becyn cymorth Caffael Prynu Bwyd Addas at y Dyfodol (adobe.com). Edrychwn ymlaen at gyfrannu at unrhyw ganllawiau statudol yn ymwneud â bwyd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Mae'r gwaith hwn hefyd yn gysylltiedig ag ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Prydau Ysgol Am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd, ac rydym wedi bod yn cefnogi hynny drwy ddatblygu mentrau cadwyni cyflenwi lleol.

Mae Bil Amaethyddiaeth Cymru wedi cyrraedd y trydydd cyfnod ac ar hyn o bryd rydym yn aros am yr adroddiad cyd-ddylunio yn dilyn yr ymarfer ymgynghori ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rydym yn awyddus i weld sut y gellir hwyluso'r cysylltiadau ffermio ar draws y gadwyn fwyd gyfan drwy'r cynllun, er enghraifft drwy ddatblygu cadwyni cyflenwi amaeth-ecolegol byr a chefnogi garddwriaeth ar raddfa fach. Yn y cyfamser, rydym wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol, gan eirioli'n benodol dros gymorth i bartneriaethau bwyd traws-sector a datblygu cynlluniau bwyd lleol drwy Bwyd Caerdydd fel astudiaeth achos Strategaeth Bwyd Cymunedol | Busnes Cymru - Bwyd a diod (llyw.cymru)

Yn anad dim rydym wedi bod yn eirioli dros weledigaeth gyfunol ar gyfer ein System Fwyd yng Nghymru. Beth ydym ni eisiau iddi ei gyflawni ar gyfer ein cymunedau a'n tirwedd yng Nghymru? Dyma pam mae balot llwyddiannus Bil Bwyd Peter Fox AS wedi bod mor allweddol yn ystod y 12 mis diwethaf o ran codi proffil yr angen am weledigaeth gydlynol a chyfunol arnom ar gyfer ein System Fwyd yng Nghymru. Yn wir, yn ei chyfweliadau olaf â'r cyfryngau fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, soniodd Sophie Howe sut y byddai bwyd yn un o'i meysydd ffocws allweddol pe bai'n dechrau ar ei swydd o'r newydd. Rydym eisoes wedi cwrdd â'r Comisiynydd newydd, Derek Walker, mewn cyfarfod rhagarweiniol ar y system fwyd yng Nghymru.



WWF Cymru / Aled Llywelyn

## Gwaith Polisi ac Eiriolaeth

Ar wahân i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r anhwylderau lluosog sy'n deillio o'n system fwyd (colli natur, newid yn yr hinsawdd, salwch sy'n gysylltiedig â deiet) yn ogystal â'r rhai o'i mewn (anghydraddoldeb, colli natur, newid yn yr hinsawdd, afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet) mae rhai datblygiadau mawr yn y DU sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gymru gael cynllun cynhwysfawr ar gyfer bwyd. Sut y mae Cymru yn ymateb i raglen diwygio rheoleiddio yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n ceisio sicrhau bod rheoleiddio bwyd yn parhau i fod yn gymesur, yn briodol ar gyfer yr hinsawdd bresennol ac yn effeithiol? Sut y mae'r ffaith y bydd yr haul yn machlud ar reoliadau'r UE yn mynd i effeithio ar ein system fwyd yng Nghymru? Beth yw goblygiadau'r Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl) sy'n prysur wneud ei ffordd drwy San Steffan? Sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda busnesau i leihau salwch sy'n gysylltiedig â deiet drwy ymyriadau yn y sector manwerthu a lletygarwch heb greu canlyniadau anfwriadol i economïau lleol, yr amgylchedd ac iechyd meddwl? Gallai cael gweledigaeth gytûn helpu i roi pawb ar yr un trywydd cydlynol, cytûn, hyd yn oed os nad yw rhai o'r pwerau yn nwylo'r Senedd.

Dyma rai o'r grwpiau a'r mecanweithiau yr ydym yn eu defnyddio i gefnogi datblygiad meddylfryd polisi bwyd:



## Gwaith Polisi ac Eiriolaeth

**Cynghrair Polisi Bwyd Cymru**

Cyfuniad o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n datblygu a hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer system fwyd Cymru yw Cynghrair Polisi Bwyd Cymru. Fel cyd-sylfaenydd mae Synnwyr Bwyd Cymru yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth i Gynghrair Polisi Bwyd Cymru a hefyd yn rhoi cymorth Cyfathrebu i'r grŵp.

Drwy gydweithio, ymgysylltu ac ymchwil, nod y Gynghrair yw:

- Cydgynhyrchu gweledigaeth ar gyfer system fwyd yng Nghymru sy'n cysylltu cynhyrchu, cyflenwi a bwyta ac yn rhoi ystyriaeth gyfartal i iechyd a llesiant pobl a natur.
- Eirioli dros newid polisi er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol, yr argyfwng iechyd y cyhoedd a'r cynnydd mewn ansicrwydd o ran y cyflenwad bwyd.
- Sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â pholisïau a chyfleoedd ymchwil y DU a'r system fyd-eang ehangach.

Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru wedi parhau i adeiladu momentwm a chefnogaeth ar gyfer gweledigaeth gyfunol ar gyfer bwyd yng Nghymru. Mae cyfathrebu a chymorth ysgrifenyddol wedi bod yn allweddol o ran datblygu gwaith y gynghrair.

Mae'r gynghrair wedi parhau i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau drwy ymatebion i ymgynghoriadau, cyfarfodydd, cyflwyniadau, ymchwil a chyhoeddiadau ac mae wedi cynyddu cyfleoedd i glywed lleisiau o bob rhan o'r System Fwyd. Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn parhau i hyrwyddo'r angen am weledigaeth a strategaeth gyffredinol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r ddeddfwrfa bresennol a'r un sydd i ddod yn eu cynnig a'r cyfleoedd i harneisio'r egni o'r gwaelod i fyny. Yn benodol, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i ymateb i ymgynghoriadau ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Bil Bwyd (Cymru) a'r Amgylchedd Bwyd ac i wneud cysylltiadau ar draws prosiectau ac ymchwil ar lawr gwlad.

Yn ddiweddar hefyd lansiodd y Gynghrair fideo yn esbonio ein system fwyd bresennol - ei chyflwr presennol, ei heffaith yn ogystal â'r cyfleoedd ar gyfer newid.  Gallwch wylio'r fideo yma.

Cyn dadl Bil Bwyd (Cymru) yn y Senedd a gynhaliwyd ar Fai 24ain 2023, cyhoeddodd Gynghrair Polisi Bwyd Cymru ganllaw defnyddiol ar wefan Synnwyr Bwyd Cymru oedd yn cynnwys papur briffio, cyfres o ffeithluniau craff yn ogystal ag adroddiadau'r pwyllgorau.  Darllenwch fwy yma.



## Gwaith Polisi ac Eiriolaeth

### Pwysau Iach: Cymru Iach

Pwysau iach: Cymru Iach yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru.  Fel rhan o'i huchelgais, mae Llywodraeth Cymru eisiau:

- I bobl Cymru, a chenedlaethau'r dyfodol, gael y cychwyn gorau mewn bywyd a byw bywydau hirach, gwell a hapusach
- Cefnogi gwneud y dewis iachach yn ddewis hawdd ac i bobl deimlo eu bod yn cael eu galluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol am eu ffordd o fyw er mwyn cynnal pwysau iach

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn un o'r sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i weithredu a chyfathrebu ei strategaeth yn effeithiol gydag unigolion a chymunedau ledled Cymru.  Cyfeirir at Synnwyr Bwyd Cymru fel partner arweiniol yn y strategaeth Cynllun Cyflawni 2022 – 2024 a chyfeirir at Pys Plîs ym Maes Blaenoriaeth Cenedlaethol 1 y cynllun.

### Cychwyn Iach

Menter gan y Llywodraeth yw Cychwyn Iach sy'n darparu talebau gwerth £4.25 i deuluoedd cymwys bob wythnos i'w gwario ar laeth, ffrwythau a llysiau ffres, wedi'u rhewi ac mewn tun, corbys ffres, sych ac mewn tun, a llaeth fformiwla i fabanod.

Mae'r cynllun yn cefnogi teuluoedd sy'n cael mathau penodol o fudd-daliadau, gan helpu mamau beichiog a'r rhai sy'n bwydo ar y fron, a phlant o dan bedair oed yn benodol. Mae menywod a phlant sy'n cael talebau bwyd Cychwyn Iach hefyd yn cael cwponau fitaminau i'w cyfnewid am Fitaminau Cychwyn Iach am ddim, sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer menywod beichiog a'r rhai sy'n bwydo ar y fron a babanod a phlant cyn-ysgol.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynyddu gwerth talebau Cychwyn Iach yng Nghymru, yn unol â'r hyn yr oedd Llywodraeth y DU yn ei wneud, o £3.10 yr wythnos i £4.25 i ddarparu cymorth gyda maeth ymysg plant a theuluoedd ar incwm isel. Daeth y cynnydd hwn i rym ym mis Ebrill 2021.  Cafodd y cynllun ei ddigideiddio hefyd yn 2022 ac mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith ar Cychwyn Iach a'r ymdrech ar yr ochr gyfathrebu.  Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn falch o fod yn aelod o Rwydwaith Cychwyn Iach Cymru Gyfan yn ogystal ag aelod o Weithgor Cychwyn Iach y DU sy'n cael ei gynnull ar y cyd gan Pys Plîs a Sustain.  Cynhaliodd y grŵp ymchwil yn ddiweddar a ddangosodd ym mis Mawrth 2023, ar gyfartaledd, mai dim ond 64% o deuluoedd cymwys oedd yn cael taliadau Cychwyn Iach ledled y DU.  Mae hyn yn golygu bod dros £3.2m heb ei hawlio yng Nghymru yn unig.






Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

## Gwaith Polisi ac Eiriolaeth

Rydym  hefyd yn gyd-lofnodwyr llythyr agored a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, yn galw ar lunwyr polisïau i:

- fynd i'r afael â'r heriau technegol sy'n atal pob teulu cymwys rhag cofrestru'n awtomatig ar gyfer y cynllun
- buddsoddi £5 miliwn mewn ymgyrch gyfathrebu i hyrwyddo'r cynllun yn eang
- cynyddu gwerth Cychwyn Iach yn unol â chwyddiant
- ehangu'r cymhwystra i bob teulu ar Gredyd Cynhwysol a budd-daliadau cyfatebol gyda phlant o dan bum mlwydd oed
- ehangu'r cymhwystra i bob teulu â phlant ifanc sydd ar incwm isel iawn heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus

Mae llawer o bartneriaethau bwyd Cymru hefyd wedi bod yn annog pobl i fanteisio ar y rhaglen Cychwyn Iach yn eu hardaloedd.  Ym Mlaenau Gwent, cyhoeddodd prosiect peilot sy'n cael ei redeg gan Bartneriaeth Bwyd Blaenau Gwent ac sy'n cael ei gefnogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, nifer cyfyngedig o dalebau atodol i deuluoedd Dechrau'n Deg. Gwariwyd y £5 ychwanegol i hybu taliadau Cychwyn Iach yn y siop lysiau leol M&J Fruit and Veg yn Abertyleri a Fresh 'n' Fruity ym Mrynmawr a Glynebwy. O ganlyniad i hynny, cynyddodd y bartneriaeth fynediad a fforddiadwyedd at fwyd iach tra'n cefnogi busnesau bwyd lleol, ac mae Blaenau Gwent yn un o'r ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru sydd ag un o'r ffigurau uchaf o ran y rhai sy'n manteisio ar dalebau Cychwyn Iach yng Nghymru.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Lansio Pecyn Gwybodaeth am fudd-daliadau'n ymwneud â bwyd yng Nghaerdydd a'r Fro

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddwyd adnodd digidol ar wefan Symud Mwy, Bwyta'n Iach mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth ynghyd â chynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar fuddion sy'n ymwneud â bwyd, gan gynnwys Cychwyl Iach.

Gyda chefnogaeth Bwyd Caerdydd a Synnwyr Bwyd Cymru, cydweithiodd y timau i greu'r adnodd pwysig hwn fel ffordd o rannu gwybodaeth gyda staff rheng flaen ac i roi'r hyder iddynt i annog teuluoedd i gael mynediad at yr hyn y mae ganddynt hawl iddo.

Mae'r adnodd newydd hwn yn amlinellu'r gwahanol gynlluniau sydd ar gael yng Nghymru ac yn egluro'n glir beth yw'r cynllun, pwy sy'n gymwys, sut y gall teuluoedd gael mynediad at y cynllun, a pham ei fod yn bwysig.  Gall defnyddwyr hefyd ddod o hyd i wybodaeth am rai o'r prosiectau bwyd lleol gwych sy'n cynnig cymorth sydd mawr ei angen ar deuluoedd.

Darllenwch fwy yma.



### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn gynnar yn 2023, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe, bapur o'r enw Costau Byw: Nawr ac yn y Dyfodol. Roedd y papur hwn yn amlinellu nifer o feysydd polisi a allai ysgogi buddion hirdymor lluosog i nodau llesiant Cymru, yn ogystal â helpu teuluoedd sy'n wynebu pwysau costau byw enfawr yn y tymor byr a'r tymor canolig. Galwodd y Comisiynydd am ymrwymiad hirdymor i gyflwyno partneriaethau bwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Dywedodd hefyd y gallai Llywodraeth Cymru ystyried integreiddio llawer o'i hymyriadau blaengar yn y system fwyd drwy gynhyrchu strategaeth fwyd genedlaethol, sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, yn ogystal ag annog Llywodraeth Cymru i wneud ymrwymiad hirdymor i'r rhaglen gwyliau prydau ysgol am ddim.

Ym mis Mawrth 2023, dechreuodd Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd Cymru, ar ei gyfnod chwe blynedd. Mae Synnwyr Bwyd Cymru eisoes wedi cwrdd â'r Comisiynydd ac yn edrych ymlaen at drafodaethau pellach ynghylch blaenoriaethu bwyd a systemau bwyd yn ystod ei gyfnod yn y swydd.



*"Rwy'n croesawu cyhoeddiad diweddar y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ar gyllid tymor byr ar gyfer partneriaethau bwyd traws-sector drwy Synnwyr Bwyd Cymru. Ond rwy'n annog ymrwymiad mwy hirdymor i gyflwyno partneriaethau bwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru o fewn Strategaeth Bwyd Cymunedol arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae Partneriaethau Bwyd, a arweinir gan Synnwyr Bwyd Cymru, yn cydlynu dull aml-randdeiliad lleol i fynd i'r afael â thlodi bwyd, gan gefnogi darparu bwyd fforddiadwy sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus, y sector gwirfoddol a chymunedau lleol. Rwyf hefyd yn gefnogol i ddull gweithredu Bil Bwyd Cymru arfaethedig sy'n galw am ddatblygu mwy o gydgysylltu ar draws y llywodraeth drwy strategaeth fwyd genedlaethol."*

**Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2016 - 2023)**



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

## Gwaith Polisi ac Eiriolaeth

**Cyfres Gwlad ein Dyfodol: Gweithio mewn partneriaeth â Gweithwyr y Tir Cymru i greu cynnwys ar gyfer WWF Cymru**

Yn ystod haf 2022, comisiynwyd Synnwyr Bwyd Cymru a Chynghrair Gweithwyr y Tir Cymru gan WWF Cymru i gyflwyno cyfres o chwe astudiaeth achos yn dangos potensial amaeth-ecoleg yng Nghymru.

Cyflwynwyd pob astudiaeth achos fel pecyn mewn fformatau ysgrifenedig a fideo gyda ffotograffiaeth i gyd-fynd â hi. Daeth yr ymgyrch i ben gydag adroddiad terfynol a oedd yn cynnwys y chwe ffermwr ac argymhellion allweddol.

Diben creu'r gyfres hon oedd llywio gwaith polisi ac eiriolaeth WWF Cymru yn ogystal â dangos i'r cyhoedd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau beth sy'n bosibl drwy ddull amaeth-ecolegol o ddefnyddio tir. Defnyddiwyd yr astudiaethau achos ar draws y cyfryngau cymdeithasol, cyfryngau print, y we yn ogystal â chael eu cyflwyno'n uniongyrchol i randdeiliaid.

Roedd cyflawni'r darn hwn o waith yn caniatáu i Synnwyr Bwyd Cymru ddyfnhau ymhellach ein perthynas â WWF Cymru a Gweithwyr y Tir Cymru yn ogystal â meithrin perthnasoedd newydd â ffermwyr ledled Cymru, gan amlygu eu straeon a chodi proffil eu gwaith pwysig. Gallwch ddarganfod mwy am yr ymgyrch yma.


















## Gwaith Polisi ac Eiriolaeth

### Aelodaeth o Fyrddau a Grwpiau

Mae gan Synnwyr Bwyd Cymru gynrychiolaeth ar nifer o Fyrddau a Grwpiau sy'n ymwneud â systemau bwyd - ledled Cymru a'r DU. Dyma gipolwg ar y grwpiau hynny y buom yn ymwneud â nhw rhwng Mai 2022 a Mai 2023:

- Aelod Sefydlu ac Ysgrifenyddiaeth Cynghrair Polisi Bwyd Cymru
- Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
- Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru - Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Grŵp Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Ymgyrchu Pwysau Iach Cymru Iach
- Gweithgor Cychwyn Iach y DU
- Rhwydwaith Cychwyn Iach Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol – sydd hefyd yn cyfrannu at Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Dynol
- Clymblaid Gwrthdlodi - sydd hefyd yn cyfrannu at Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Dlodi
- Grŵp Trawsbleidiol - Plant a Theuluoedd (senedd.cymru)
- Mynychu a chyfrannu at Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Fwyd Ysgol
- Bwrdd Veg Power
- Gweithgor Bwyd Ysgol y DU
- Cynghrair System Bwyd Ymwybodol Asiantaeth Datblygu'r Cenhedloedd Unedig
- Mae Bwyd Caerdydd yn cadeirio Grŵp Datblygu Edible Cardiff.
- Aelodau o grŵp cynghori Bwyd a Hwyl Cymru
- Aelodau o Sustain



# Y CAMAU NESAF: 2023 / 2024

## Adeiladu ar ein Sylfeini

Eleni byddwn yn gosod ein cyfeiriad strategol newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf yng nghyd-destun deddfwriaeth a pholisi sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â bwyd, mudiad bwyd sy'n datblygu a'r argyfwng costau byw parhaus. Dros y tair blynedd diwethaf mae rhychwant ein gwaith wedi bod yn sylweddol ac rydym wedi cymryd peth amser i ystyried ein cryfderau a'n lle o fewn y darlun ehangach o weithredwyr systemau bwyd yng Nghymru. Rydym am gryfhau ein camau gweithredu yn y rhannau hynny o'r system y teimlwn y gallwn gael yr effaith fwyaf.

Ynghyd â'n grŵp cynghori rydym wedi nodi tri maes a fydd yn llywio ein strategaeth ar gyfer y dyfodol dros y misoedd nesaf, gan adeiladu ar seiliau ein gwaith hyd yma:

1. **Sicrhau newid yn niwylliant bwyd Cymru sy'n adeiladu ar alluoedd mewnol y rhai o fewn y system fwyd ac sy'n cofleidio ein treftadaeth, yn dathlu ac yn gwerthfawrogi elfennau "lleol" ac yn rhoi lle blaenllaw i addysg bwyd mewn ysgolion, Addysg Bellach, Addysg Uwch ac yn y gweithle.**

2. **Chwyldro o ran caffael yn lleol a chaffael yn gynaliadwy wedi'i arwain gan y system gaffael gyhoeddus a fydd yn cael ei dilyn gan farchnadoedd eraill. Dylai bwyd amaeth-ecolegol ar y plât cyhoeddus sbarduno'r galw am gynnyrch amaeth-ecolegol ar bob plât yng Nghymru.**

3. **Polisi Bwyd a fframwaith deddfwriaethol sy'n galluogi newid i gynhyrchu a bwyta bwyd amaeth-ecolegol yng Nghymru er budd yr amgylchedd a chymdeithas, ac sy'n pennu targedu ar gyfer hynny ac yn ei fonitro.**

Bydd cydblethu gwaith ein rhaglenni â'n gwaith eiriolaeth yn allweddol i ddatblygu a chyflawni ein strategaeth newydd yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaeth Pys Plîs y DU ar ein pennod nesaf; meithrin y partneriaethau bwyd cynaliadwy yng Nghymru sy'n prysur ehangu; dyfnhau ein gwaith byd-eang-lleol gyda'r Gynghrair System Fwyd Ymwybodol; datblygu ein meysydd gwaith newydd, a pharhau i gefnogi Llywodraeth Cymru ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, megis cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i bawb a'r Strategaeth Bwyd Cymunedol.

Edrychwn ymlaen yn awr at ddatblygu ein rhaglenni a'n gwaith polisi, ac at gymryd y camau nesaf yn ein cenhadaeth i gyd-greu system fwyd i Gymru sydd o les i bobl ac i'r blaned.





Am ragor o wybodaeth neu i siarad ag unrhyw aelod o'r tîm, cysylltwch â
foodsensewales@wales.nhs.uk

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein gwaith drwy ymweld â'n gwefan www.synnwyrbwydcymru.org.uk

A gallwch hefyd ddilyn Synnwyr Bwyd Cymru ar gyfryngau cymdeithasol:
Twitter @foodsensewales
Facebook.com/FoodSenseWales